# heddwch

haf 2004
rhif 33
am ddim (neu gyfraniad)

cylchgrawn CND Cymru


# 59 mlynedd yn ôl gollyngodd UDA fomiau niwclear ar ddinasoedd Hiroshima a Nagasaki yn Japan. Cafodd mwy na 200,000 o bobl eu lladd yn syth.

## Dywedodd llywodraethau Prydain a'r UD y byddant yn ail-greu'r holocostau hyn gyda chanlyniadau llawer mwy arswydus.



# Mae'n rhaid i ni eu hatal!

Mae CND Cymru yn gweithio dros heddwch a diarfogi rhyngwladol a byd lle mae'r adnoddau anferth a ddefnyddir ar hyn o bryd i ddibenion milwrol wedi eu hailgyfeirio i ateb gwir anghenion y ddynolryw

# heddwch

**yw cylchgrawn yr Ymgyrch Ddiarfogi Niwclear yng Nghymru (CND Cymru).**

**Mae CND Cymru'n ymgyrchu ochr yn ochr â llu fudiadau eraill yng Nghymru a phedwar ban y byd i gael gwared o arfau dinistr torfol o Brydain a'r byd, a thros heddwch a chyfiawnder i bobl a'r amgylchedd.**

**Croeso i sylwadau, llythyron a erthyglau**


**Golygydd:**
Jill Stallard
(01550) 750 260
jill@cndcymru.org

**Cyfiethydd:**
Sian Edwards
sian@derwen.demon.co.uk

**'Argraffwyd a dosbarthwyd gan:**
Redkite Print
(01591) 610 844
redkite@onyxnet.co.uk




## Peiriannau lladd – gwnaed a phrofwyd yng Nghymru?

**Mae Llywodraeth y Cynulliad, drwy gyfrwng Awdurdod Datblygu Cymru (WDA) yn ceisio denu gwneuthurwyr arfau i'n gwlad. Mae Cymru eisoes yn frith o gwmnïau gwneud arfau a nwyddau cysylltiedig. Mae gan y cwmni trawswladol o'r UD, General Dynamics, ffatri newydd sbon yn y Coed Duon, Gwent.**

Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn (WA) yn gwahodd cynigion ar gyfer ei rhaglen Cerbyd Awyr Di-griw (CAD), y 'Watchkeeper'. Mae hon yn rhaglen gwerth £800 miliwn i ddatblygu CADau. Mae Aberporth, ar lannau Bae Ceredigion, wedi cael ei enwi fel maes profi posibl o dan y rhaglen hon gan ddau gwmni sy'n cystadlu am y cytundeb - Thales a Northrop Grunman, sydd ill dau yn gobeithio adeiladu'r Cerbyd Awyr Di-griw yng Ngwent.

Mae Aberporth wedi cael ei ddefnyddio fel maes profi taflegrau ers 50 mlynedd, ac mae bellach yn cael ei redeg gan Qinetiq (cwmni y mae'r WA yn berchen ar 50% ohono) fel maes profi taflegrau. Y parc technoleg sy'n cael ei ddatblygu yn Aberporth yw'r unig broject Amcan Un gwledig sy'n flaenoriaeth gan Lywodraeth y Cynulliad. Y mis diwethaf, gwahoddwyd cynhyrchwyr CADau i 'barti' yn Aberporth i hyrwyddo posibiliadau'r safle. Y diwrnod canlynol, rhoddwyd 'cyflwyniad' i geisio gwerthu'r syniad o brofion CADau i'r gymuned leol bryderus.

Mae Llywodraeth y Cynulliad a'r WDA, ynghyd â'r Asiantaeth Amrywiad Amddiffyn a Chyngor Sir Ceredigion yn gobeithio y byddwn yn credu fod CADau yn cael eu datblygu ar gyfer 'chwistrellu cnydau' neu 'reoli traffig', ac y gellir defnyddio swyddi i'n llwgrwobrwyo, galon, meddwl a chydwybod. Gan fynegi'n farn gyhoeddus yn glir ac yn onest, dywedai baner anferth a wnaed gan bobl leol ar gyfer y cyflwyniad cyhoeddus yn Aberporth ym mis Gorffennaf "MAE'R RHYFEL AR BEN – RHOWCH EIN TIR YN ÔL I NI". Efallai fod y Cynulliad yn gobeithio y byddwn yn anghofio neu'n newid ein dehongliad o'r egwyddor 'gynaliadwy' yn ei ddogfen sefydlu. Nid ydym yn mynd i'w anghofio nac ychwaith y rheidrwydd moesol i osod Cymru yn rheng flaen yr ymgyrch i adeiladu diwylliant o heddwch. Sut allwn ni ganiatáu cyswllt uniongyrchol rhwng rhywbeth a wnaed yng Nghymru a thrais a gynllunir yn erbyn cymuned arall?

**Ni wnawn werthu ein heneidiau am swyddi beth bynnag fo'r gost.**

### Beth yw CAD?

Awyrennau bychain a weithredir o hirbell yw Cerbydau Awyr Di-griw. Maent yn ysgafnach nag awyrennau cyffredin a gallant deithio pellter maith. Maent yn cael eu datblygu fel cyfrwng "rhagchwilio arfog yn erbyn targedau pwysig, trancedig". Maent yn gyfrwng lladd o hirbell, fel arfau niwclear. Mae rhai cwmnïau yn yr UD yn gweithio ar ddefnyddio puer niwclear fel tanwydd CADau er mwyn iddynt allu hedfan am gyfnodau hwy.Canmolwyd CADau yn ddiweddar fel un o 'sêr mawr' yr arfogaeth a ddefnyddiwyd i gyflawni'r anfadwaith diweddar yn erbyn pobl Irac.

### heddweithredu

Mae angen mwy o wybodaeth ynglwn â'r cynlluniau ar gyfer adeiladu a phrofi CADau. Da chi, cysylltwch â'ch AS (Tw'r Cyffredin, Llundain SW1A 1AA) ac AC (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd, Caerdydd CF99 1NA) ynglwn â hyn, mynegwch eich gwrthwynebiad i'r cynlluniau a danfonwch gopïau o unrhyw atebion a dderbyniwch at CND Cymru (gweler Cysylltiadau). Cysylltwch ag CND Cymru os hoffech helpu i adeiladu'r ymgyrch yn erbyn CADau yng Nghymru.

## *Sylw:* Lle na cheir gweledigaeth, bydd y bobl ar chwâl

Wrth i 'gyfaddefiadau' llywodraethau'r UD a Phrydain a'r pwyntio bysedd ynglwn â'r camhysbysrwydd ynglwn ag arfau dinistr torfol yn Irac a'r cyrch at ryfel ddiferu'n araf allan o adroddiadau newyddion, does dim cysur mewn clywed mai ni yn y mudiad heddwch oedd yn iawn ar hyd yr amser.

Sut yn y byd oedden ni'n gweld mor glir yr hyn mae'r awdurdodau'n honni na allent ei weld?

Tra bod ymchwiliadau a gweidyddion (a'u hwynebau fymryn yn binc hwyrach) yn cyfaddef yn hunangyfiawn (gan geisio bwrw'r bai ar eraill), ni chlywn yr un llais swyddogol yn cyfaddef i lofruddiaeth mewn gwaed-oer neu ddienyddiad bwriadol o leiaf 40,000 o bobl Irac ers mis Mawrth 2003, ac am yr hanner miliwn o blant Irac a fu farw o ganlyniad i sancsiynau'r CU yn y 10 mlynedd blaenorol. Ni chlywn ddim am y dinistr amgylcheddol a achoswyd gan y rhyfel chwaith.

Mae ofn, trachwant, chwant pwer a cholli cysylltiad â'r ddaear yn arwain at ddallineb i bwysigrwydd materion amgylcheddol, gwahardd arfau niwclear, a'r angen am weithio'n egnïol i hyrwyddo diwylliant di-drais a heddwch a chyfiawnder gwirioneddol.

Mae celwydd a thwyll yn amlwg yn rhan o fywyd bob dydd i lywodraethau. Maen nhw hyd yn oed yn eu twyllo'u hunain. Ein gwaith ni fel unigolion yn ogystal â grwpiau pwyso yw datgelu gwacter 'democratiaeth etholedig', i ddweud y gwir am yr hyn y gallwn ei ddarganfod, ac i fynnu bod ein cynrychiolwyr etholedig yn atebol.

**Teimlwch yn nerthol. Cofiwch y *gallwch* chi a fi, gyda'n dychymyg a'n hegni, newid pethau er gwell yn y tymor hir. Drwy wneud hynny, a dim ond bryd hynny, gallwn edrych i fyw llygaid ein plant a'n hwyrion.**

**Jill Stallard**

# Gwarchae Castell Biwmares!

*Adeiladwyd Castell Biwmares rhwng 1295 a 1298 ar ben dwyreiniol y Fenai. Roedd yn un o ddyluniadau milwrol mwyaf marwol ei ddydd, taflegryn star wars o gastell, os mynnwch chi. Costiodd £6,000 yn ystod chwe mis cyntaf y gwaith adeiladu, swm anferth gwerth llawer o filiynau o bunnau heddiw. Yn wir, bu bron i gyrch gorffwyll Edward I i godi cestyll fynd ag economi Lloegr i'r wal.*




Gorfodwyd y Cymry lleol i symud i fyw yn nhreflan newydd Niwbwrch a daeth Saeson a gwwr Gwasgwyn i fyw ym Miwmares. Mae'r castell wedi sefyll yno byth er hynny, yn symbol o filitariaeth, goruchafiaeth ac imperialaeth. Y tro diwethaf y cawsai'r castell ei gipio oedd gan fyddin y Senedd ym 1646 – hynny yw, tan oriau mân y bore ar y 27ain o Fehefin pan gipiwyd y castell eto, gan grup o brotestwyr heddwch, a feddiannodd y castell a'u cloi eu hunain ynddo. Ar fore Sul braf, chwifiai baner enfys y mudiad heddwch rhyngwladol o dur ucha'r castell, gyda cholomen heddwch fawr ar draws y porth, a baneri mawr yn crogi o'r muriau yn dweud fod hwn yn barth dadfilwreiddiedig ac yn galw am heddwch a therfyn ar gelwydd y llywodraeth, a baner Balestinaidd anferth.

Cyn hi, amgylchynodd yr heddlu'r castell gyda hofrennydd yr heddlu yn hedfan uwch ben. Roedd maint a chost y presenoldeb heddlu yn destun beirniadaeth gan drigolion lleol. Ymgasglodd aelodau Grup Heddwch a Chyfiawnder Bangor ac Ynys Môn y tu allan i gefnogi'r protestwyr yn ystod y dydd. Arhosodd y protestwyr yno a meddiannu'r castell dros nos.

Drannoeth, yr 28ain o Fehefin, dysgodd y protestwyr fod y ffug-sofraniaeth oedd yn cael ei chynnig gan y meddianwyr yn Irac yn mynd i gael ei datgan y diwrnod hwnnw, ddau ddiwrnod yn gynharach na'r bwriad, er mwyn osgoi mwy o drais. Daeth mwy o'r wasg i Fiwmares, ac roedden nhw'n anfodlon iawn pan wrthododd yr heddlu ganiatâd iddyn nhw gyfweld â'r gwrthdystwyr. O'r diwedd, cytunwyd y câi un o'r rhai oedd i mewn yn y castell, Gwilym Morus, siarad â newyddiadurwyr teledu.



Tua 4.30pm, tynnodd y gwrthdystwyr eu baneri i lawr a dod allan. Cawsant eu cyfarch â bonllefau, eu dwyn i orsaf heddlu Caernarfon a'u cyhuddo o 'niwsans cyfraith gyffredin' gan nad oeddynt wedi cyflawni unrhyw niwed troseddol. Trefnwyd a gweithredwyd y gwrthdystiad yn wych gan Gwilym Morus, Steven Collings, Philip Jones, Jonathan Baines, Paddy, Thomas Pearson, Liz, Alice Grey, ac Alan Cowli-Shaw.

**Phil Steele**
Grwp Heddwch a Chyfiawnder Bangor

**Cyhoeddodd y protestwyr heddwch, sef aelodau o Goleg Prifysgol Cymru, Bangor ac aelodau o'r gymuned leol, y datganiad canlynol:**

*"Yr ydym wedi meddiannu'r castell hwn yn enw Gwirionedd, Heddwch a Chyfiawnder. Protest heddychlon yw hon yn erbyn ymddygiad y Llywodraeth Brydeinig yn y dwyrain canol – ymddygiad sydd yn dilyn yn wasaidd bolisïau tramor imperialaidd yr U.D.; ymddygiad sydd wedi ansefydlogi'r rhanbarth, yn achosi poen a dioddefaint dianghenraid i filiynau o bobl.*

*Mae ein llywodraeth wedi dweud celwydd wrthym yn gyson ynglwn â'r goresgyniad a'r meddiant anghyfreithlon o Iraq, ynglwn â'r addewidion i ailadeiladu Afghanistan, ac ynglwn â maint cefnogaeth ein Llywodraeth i Wladwriaeth Israel er gwaethaf y niwed ofnadwy a wnaed i bobl Palestina.*

*Mae ein llywodraeth yn honni ei bod yn gweithredu yn enw democratiaeth, ond mae ei gweithredoedd yn gwasanaethu anghenion economaidd yn unig. Rhoddwyd elw ariannol cyn diogelwch pobl. Mae ei pholisïau trychinebus yn y dwyrain canol wedi'n gwneud yn llai diogel yn y wlad hon ac wedi achosi difrod enfawr i bobloedd Arabaidd dramor.*

*Fel aelodau o'r gymuned leol a myfyrwyr Prifysgol Cymru, yn symbolaidd o garfan arwyddocaol o'r cyhoedd Prydeinig, yr ydym yn haeru fod y llywodraeth hon wedi gweithredu'n annemocrataidd, yn anwybyddu ein barn. Mae hi wedi torri cyfraith rhyngwladol ac wedi ymladd rhyfel o gelwyddau yn erbyn pobl y wlad hon. Gofynnwn i bawb sydd â chydwybod i ymuno â ni yn y brotest hon. Mewn parch i'r nifer o fywydau a gollwyd yn barod yn ddiangen, ac er mwyn y nifer o fywydau eto i'w haberthu'n ddiangen mae'n rhaid gwneud ein lleisiau'n glywadwy.*

*Yr ydym yn ymgymryd i wneud dim niwed i ffabrig nac adeiladwaith y safle hwn. Byddwn yn gadael y safle'n wirfoddol am 5 o'r gloch, brynhawn Llun yr 28ain o Fehefin. Galwn ar y lluoedd sydd wedi meddiannu Palestina, Afghanistan ac Iraq i wneud yn debyg."*

# Lleisiau o'r stryd: colomen gan Eisteddfod yr Urdd

Cyflwynodd Grwp Heddwch a Chyfiawnder Bangor golomen gardbord anferth i'r AS lleol Albert Owen yn ddiweddar. Roedd neges wedi ei sgrifennu ar y golomen yn mynnu y dylai'r fyddin Brydeinig adael Irac, gyda llu o lofnodion a gasglwyd yn y babell heddwch ac ar y Maes gan aelodau CND Cymru a Chymdeithas y Cymod, yn ystod Eisteddfod yr Urdd 2004 ar Ynys Môn.

Mae'r grwp yn galw ar Albert Owen AS hefyd i wrthwynebu cefnogaeth y llywodraeth i Ariel Sharon yn eu ymosodiadau gwarthus ar fywydau Palestiniaid, a'r ffaith nad yw Prydain yn gwrthwynebu'r driniaeth anghyfreithlon a roddir i sifiliaid a charcharorion yn Irac, carchar Belmarsh, Diego Garcia a Bae Guantánamo.

**Cysylltwch â Grwp Heddwch a Chyfiawnder Bangor (01248) 490 715**

Arfau arswyd Prydain

# Dallineb Ofn

**Yn ffilm 1980, "The Martian Chronicles", mae'r trefedigaethwyr ar y blaned goch yn gwylio'r holocost niwclear sy'n dod â'r byd i ben. Mae'r disg yn llosgi'n wynias am rai eiliadau ac yna'n tywyllu. Mae pethau'n wahanol nawr, wrth gwrs. Cwtogwyd ar arfogaeth niwclear yr UD a Rwsia, a 'dim ond' 200 o ergydion Trident sydd ar ôl gan Brydain erbyn hyn. Byddai'r ymatal clodwiw yma'n rhoi persbectif gwahanol o'r blaned Mawrth ar ein diweddglo tebygol – y tro yma, dim ond rhyw wawr gochlyd fyddai i'w gweld yn y lle cyntaf, yna sawl gwawr bert o borffor cyn y tywyllwch eithaf.**

Mae'r ffaith fod swyddogion yn gallu cyhoeddi'r newydd da ynglwn â thoriadau niwclear gan gadw wyneb syth, a'r ffaith gythryblus ein bod ni, y bobl gyffredin, yn gyffredinol yn derbyn hyn heb ffrwydriad o wfftio apocalyptg, yn golygu fod y sbin wedi bod yn llwyddiannus dros ben. Ar y llaw arall, mae'n ffaith hysbys i'r cyhoedd fod y wladwriaeth Brydeinig yn bygwth eraill gydag arfau dinistr torfol (ADT) – meddylier am y sawl rhybudd a roddwyd gan Geoff Hoon y llynedd y gallem ddewis defnyddio arfau niwclear yn Irac. Does dim ymgais i guddio beth yw diben Aldermaston, Faslane a Coulport a Devonport. Ac eto, mae rhyw dabu cyhoeddus yn erbyn cyfeirio at hynny mewn cyd-destunau lle gellid disgwyl i'r mater gael ei godi. Er enghraifft, Tony Blair yn prysur ganmol Libya am roi'r gorau i ADT – heb i neb yn y cyfryngau wneud y cysylltiad hanfodol rhwng hyn ag arfau braw Prydain.

Mae'n destun rhyfeddod hefyd fod y bygythiad o ddefnyddio arfau niwclear yn gallu cyd-fodoli o fewn yr un ffrâm gyfeiriadol â'r oslef foesol aruchel y bydd gwleidyddion yn ei defnyddio wrth sôn am y perygl o ymlediad arfau niwclear. Mae'r twyll yn dibynnu ar lywodraeth haerllug a chyfryngau llywaeth a di-asgwrn-cefn. Mae hefyd yn dibynnu ar ein llesgedd ninnau. Rydym wedi canfod y twyll, ond rydym yn aml wedi ein parlysu, yn analluog i weithredu. Mae Trident hefyd yn seicolegol gudd, yn rhannol oherwydd, i lawer o bobl, mae'n beth rhy fawr i'w amgyffred ac yn rhywbeth na chredant y gallant wneud dim byd yn ei gylch. Efallai mai dyna pam mae rhai'n ei chael hi'n haws canolbwyntio, yn hytrach, ar geisio atal datblygiadau newydd hyll. Wrth gwrs, dylem fod yn gwneud y ddau beth, ond peidied neb byth ag anghofio fod Trident yn rhygnu yn ei flaen, yn dal i fod â'r gallu am 20 mlynedd arall a mwy i frawychu ac arswydo, yn fygythiad beunyddiol i'r holl blaned.

Un ffordd effeithiol o dorri ar draws y parlys (er nad yr unig un) yw ymweld ag un o safleoedd y system. Edrychwch ar y milltiroedd o weiren rasel yn Faslane a'r llongau tanfor yn mynd a dod. Cerddwch o gwmpas y gwaith anferth yn Aldermaston gan eich atgoffa'ch hun o'i ddiben. Edrychwch ar ddoc Trident yn Devonport a phenderfyniad y llywodraeth hon i fwrw ymlaen â'r project atgas hwn am gyfnod amhenodol.

Mae llygedyn o obaith. Yn rhyfedd ddigon, gall yr Alban fechan ddylanwadu er gwell ar y sefyllfa arswydus yma mewn modd cwbl anghymesur â'i maint a'i phwysigrwydd ym marn San Steffan. Mae'r gwrthwynebiad yma i Trident (ymhlith y rhai sy'n gwybod amdano) yn gryf. Pe bai'r Alban yn benderfynol o gael gwared o Trident, gallai ddechrau troi'r drol. Rydym ni sy'n byw yma yn cael cefnogaeth wych gan bobl o'r tu allan i'r Alban (yn cynnwys Gwledydd Llychlyn) sy'n ymgyrchu'n egnïol yn erbyn canolfannau Trident yr Alban.

Rhaid i'r pwysau i gael gwared o Trident ddod mewn llawer ffordd ac o lawer cyfeiriad. Yn Trident Ploughshares rydym yn argyhoeddedig y gall gweithredu uniongyrchol heddychlon a di-drais chwarae rhan bwysig. Mae sawl gwarchae ar Faslane wedi ymyrryd yn llwyddiannus iawn â gwaith y ganolfan ADT honno, helpu i roi Trident ar yr agenda ac arwain at gryn bwysau ar system llysoedd yr Alban.


Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'n siur eich bod wedi clywed pobl yn cwestiynu gwerth protestio torfol wedi i'r miliynau ar y strydoedd fis Chwefror y llynedd fethu atal y rhyfel yn erbyn Irac. Mewn gwirionedd, wyddon ni ddim beth oedd effaith y 15fed o Chwefror 2003. Fel aelod cymharol newydd o'r mudiad heddwch, mae cwrdd â phobl hwn sydd wedi bod wrthi'n herio anghyfiawnder ar hyd eu hoes yn gwneud i mi deimlo'n wylaidd: does gan y rhain ddim bwriad treulio eu hamser yn garddio, er cael eu gwrthod a'u dilorni nifer anhygoel o weithiau dros y blynyddoedd. Byddwch yn dal i'w cwrdd yn y gwrthdystiadau, mewn gwylnosau llysoedd, yn eistedd ar y ffordd, y tu fewn i orsafoedd heddlu.

Ymunwch â ni ar y 23ain o Awst yng nghanolfan y llynges yn Faslane, ger Glasgow, yn y Gwarchae Mawr. P'run ai eich bod yn eistedd ar y ffordd, yn sylwedydd cyfreithiol, yn tynnu lluniau, canu, siantio, chwifio baneri, dawnsio, gwneud te i bobl, neu beth bynnag, bydd croeso mawr i chi yno. Mae Trident Ploughshares yn cynnal gwersyll diarfogi dwy-wythnos yn Coulport o'r 18fed o Awst tan y 1af o Fedi hefyd. Croeso cynnes i chi i ddod atom am y pythefnos cyfan neu ran o'r amser.

**David Mackenzie**
**Trident Ploughshares**

heddweithredu

**Gwybodaeth gefndir ar gyfer y Gwersyll (0845) 458 8366 neu davidmc@enterprise.net**
**Cefndir ar gyfer y gwarchae o (0845) 458 8361 neu big_blockade@hotmail.com**



# Ar strydoedd Croesoswallt



Mae Clymblaid Croesoswallt dros Heddwch, gyda chraidd gweithgar o ryw naw o aelodau a rhestr bost o hyd at 100 o gefnogwyr, yn denu aelodau o'r ddwy ochr i Glawdd Offa. Daeth ymgyrchwyr o Langollen a Wrecsam i ymuno â'r grup mewn gwrthdystiad yn galw am heddwch a chyfiawnder yn Irac. Gwahoddwyd pobl oedd yn siopa yn y dref i arwyddo clamp o lythyr at y Prif Weinidog. Roedd y llythyr yn galw am dynnu'r lluoedd allan o Irac, a danfon llu rhyngwladol a fyddai'n dderbyniol i bobl Irac yn eu lle, ac am drosglwyddo sofraniaeth lawn, yn cynnwys rheolaeth dros eu heconomi a'u diogelwch eu hunain, yn ôl i bobl Irac.

Mae Clymblaid Croesoswallt dros Heddwch wedi cynnal gwrthdystiadau, gwylnosau, protestiadau baneri ar bontydd, ffair wybodaeth, cyfarfodydd cyhoeddus a dadl gyhoeddus gyda siaradwyr gwadd. Maen nhw hefyd wedi sgrifennu a chynhyrchu a ffilmio drama (rhai copïau ar gael o hyd ar fideo). Meddai George Miller, llefarydd y grup: "Fel pob grup, mae gennym y broblem o ymateb i sefyllfa fyd-eang sy'n newid beunydd, ac mae angen i ni feddwl am syniadau newydd ac ailfywiogi ein hynni."

heddweithredu

Cysylltwch â: Clymblaid Croesoswallt dros Heddwch, (01691) 658 330 ebost george.miller@virgin.net

# Gweithredwraig heddwch yn Irac



Mae Helen Williams o Gasnewydd wedi bod yn Irac ers mis Tachwedd 2003. Mae'n gweithio'n bennaf i helpu'r nifer gynyddol o blant sy'n byw ar y stryd, a phobl ifanc ddigartref eraill – yn bennaf oherwydd y rhyfel, y dirywiad economaidd o ganlyniad i hynny, a diweithdra o 75%. Mae Helen hefyd yn rhoi sylw i drasiedïau eraill, llai hysbys y goresgyniad. Mae'n byw mewn fflat fechan yn Kerrada, Baghdad. Gan ei bod hi'n byw ymhlith Iraciaid, mae'n clywed barn onest ac ofnau pobl Irac, ac mae'n cynnyws y rhain yn eu hadroddiadau rheolaidd.

Pan oedd Fallujah dan warchae, aeth Helen ac eraill â chymorth meddygol i mewn i'r ddinas i helpu'r ysbytai. Mae hefyd wedi datgelu amodau gwarthus y ffactri frics lle mae plant cyn lleied â 5 neu 6-blwydd oed yn gweithio am hyd at 72 awr yr wythnos, mewn gwres llethol – am gyflog wythnosol caethwasaidd o 80c - £2! Ar raddfa lai, ond llawn mor drasig, mae hefyd wedi rhoi sylw i drasiedi un teulu pan gafodd tad diniwed ei lofruddio, ar ei ffordd i'r ysbyty, gan filwyr Americanaidd. Mae Helen yn danfon adroddiadau cyson yn ôl i Gymru. Os hoffech chi dderbyn ei hadroddiadau, danfonwch ebost at Welshhumanshields@hotmail.com

**Kevin Williams**

heddweithredu

Bydd Kevin, sydd hefyd o Gasnewydd, yn dychwelyd i Irac ym mis Medi am 4 wythnos. Pan ddaw yn ôl, bydd yn gwneud taith siarad, gyda chymorth fideo ac arddangosfa o ffotograffau. Os hoffech chi wahodd Kevin i annerch eich grwp, da chi, cysylltwch ag e.

# Bod yn Atebol!

Y mis diwethaf, mynychodd dau gynrychiolydd o Gymru Ddialog Ieuenctid ar Ddatblygu Cynaliadwy y 4ydd Cyfarfod Asiaidd-Ewropeaidd (ASEM) yn Hanoi, Fietnam. Crewyd ASEM ym 1996 i hyrwyddo mwy o gydweithrediad rhwng y ddau gyfandir. Mae'r Dialogau Ieuenctid yn gyfle gwych i bobl iau allu cyfrannu at y broses hon.

Ymunodd David McKnight o Wrecsam a Clare Sain-ley-Berry o Gaerdydd â rhyw 60 o gynrychiolwyr o'r UE a gwledydd ASEAN i drafod materion a oedd yn cynnwys y newid hinsawdd. bio-amrywiaeth, addysgu ar gyfer byw cynaliadwy, ac atebolrwydd corfforaethol. Er bod peth gwahaniaeth barn, yn naturiol, cytunai pawb bron ar fater atebolrwydd corfforaethol. Mewn datganiad a gyflwynir i arweinwyr yr UE ac ASEAN, mae'r Ddialog Ieuenctid yn galw am newid y gyfraith fel bod Cyfarwyddwyr corfforaethau'n cael eu dal yn gyfrifol am sicrhau nad yw eu cwmni'n ceisio elw ar draul hawliau dynol, cymunedau lleol, yr amgylchedd, neu urddas eu gweithwyr.

**Clare sain ley Berry**

heddweithredu

Mwy o fanylion o cslbjoburg@hotmail.com



Clare a David gyda chynrychiolwyr Thai a Philippino, Dialog Ieuenctid ASEM 2004

Ymbelydredd lefel-isel

# Ymladd yr ymbelydredd - gwae gwyddonwyr gwael

**Sefydlwyd yr Ymgyrch Ymbelydredd Lefel-isel (LLRC) ym 1993 i alw sylw at wir beryglon llygredd ymbelydrol drwy ddod â phraffter gwyddonol i faes lle'r oedd gwyddoniaeth wael yn rhemp.**

A siarad yn fras, mae'r naill lywodraeth ar ôl y llall wedi arddel safbwynt swyddogol o wadu bodolaeth 'clystyrau' o bobl yn nghyffiniau gorsafoedd niwclear sydd â lefelau uwch na'r cyffredin o afiechyd. Mae'r safbwynt swyddogol hwn wedi cael – ac mae'n dal i gael - ei gefnogi gan gymysgedd o gamddehongli ystadegau, glynu wrth ganlyniadau astudiaethau amherthnasol, a gwrthod cydnabod ffeithiau amlwg. Yn 2000, o ganlyniad i ymgyrchu di-baid i ddatgelu'r gwirionedd ynglwn ag effeithiau llygredd ymbelydrol mewnol, llwyddodd yr LLRC i ddarbwyllo Michael Meacher AS i sefydlu Pwyllgor Archwilio Perygl Ymbelydredd o Ollyngwyr Mewnol (CERRIE). Bydd CERRIE yn cyflwyno'i adroddiad terfynol i'r llwyodraeth yn yr hydref. Mae Richard Bramhall o'r LLRC yn nodi mai dyma'r tro cyntaf erioed i un o gyrff cynghorol gwyddonol y llywodraeth gael ei sefydlu gyda g aelodau gwrthwynebus, sy'n cynrychioli dau safbwynt gwahanol. Mae CERRIE'n cynnwys dau gynrychiolydd o'r LLRC ac un yr un o Greenpeace a Chyfeillion y Ddaear ar y naill ochr i'r ddadl, ac uwch-swyddogion o'r Bwrdd Amddiffyn Ymbelydrol Cenedlaethol (NRPB) a British Nuclear Fuels Ltd (BNFL) ar y llall. Mae pedwar aelod arall y Pwyllgor yn academyddion o wahahanol ddisgyblaethau gwyddonol.



### Y Golchdy Niwclear – Windscale a Wedyn

Daeth y cyhoedd yn ymwybodol o fodolaeth clystyrau o ddioddefwyr yn agos at weithfeydd niwclear am y tro cyntaf 20 mlynedd yn ôl pan ddarganfu rhaglen deledu Yorkshire TV, *'Windscale – The Nuclear Laundry'* fod lewcemia plentyndod yn Seascale, ger Sellafield – y gwaith ailbrosesu niwclear Prydeinig - 10-12 gwaith yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Yn gynharach eleni, gwnaeth HTV yr un peth o gwmpas glannau'r Fenai, rhwng Ynys Môn a Gwynedd. Mae ponciau llaid yn y cylch wedi eu llygru gan wastraff o Sellafield, ac mae'r clwstwr yn fwy difrifol nag in Seascale, ac yn llawer cryfach yn ystadegol. Mae'r data a ddatgelwyd yn dangos fod lewcemia plentyndod (mewn plant 0-4 oed) yng Nghaernarfon fwy nag ugain gwaith yn uwch na'r cyfartaledd Prydeinig, ac mewn 34 ward yng nghyffiniau'r Fenai, mae lewcemia plant (dan 4 oed) wyth gwaith yn uwch, mae canser yr ymennydd a'r asgwrn cefn (dan 15 oed) bum gwaith yn uwch; a cheir lefel ddengwaith yn uwch o retinoblastoma, canser llygad prin (mewn rhai dan 14 oed).

Does dim dadl ynglwn â'r ffigurau hyn, gellid meddwl. Ond ers ugain mlynedd bellach, mae'r ddau gorff gwarchod a sefydlwyd yn union ar ôl darlledu *Windscale* – y Pwyllgor ar Agweddau Meddygol Ymbelydredd yn yr Amgylchedd (COMARE) a'r Uned Ystadegau Iechyd Ardal Fach (SAHSU) – wedi gwrthod cydnabod bodolaeth 'clystyrau' yn gyson. Mae'r LLRC yn ymgyrchu dros gau COMARE a SAHSU gan fod y ddau gorff, ers dau ddegawd bellach, yn fethiant amlwg o ran diogelu iechyd y cyhoedd; mae'n glir nad ydynt yn cyflawi eu swyddogaeth fel cyrff gwarchod.

### Llygredd – Nid Problem y Glannau yn Unig

Mae llygredd ymbelydrol mewn cymunedau Cymreig ar hyd glannau Môr Iwerddon, felly, yn ffaith. Ond mae ymbelydredd o waith llaw dyn ym mhob man yn yr amgylchedd, ar lefelau is, a gellir canfod a mesur ei effeithiau ledled Cymru. Ymddengys fod cysylltiad clos rhwng hinsawdd a'r ystadegau. Er enghraifft, mae cyfraddau canser ledled Cymru yn uwch na rhai Lloegr, yn bennaf oherwydd ei bod yn bwrw glaw yn fwy yma; mae amrywiadau mewn cyfraddau canser y fron yn cyfateb i ymbelydru â Strontium-90, y cwmpodd llawer mwy ohono ar Gymru o ganlyniad i brofion bomiau atomig yn y 1950au a 1960au, ac o drychineb Chernobyl. Mae clystyrau demograffig yn bod ledled y byd hefyd o ganlyniad i weithgaredd niwclear ei sail, fel arfer oherwydd defnydd arfau wraniwm hesb sy'n poeri gronynnau i mewn i'r atmosffer: mae milwyr sy'n cadw'r heddwch yn Kosovo, yn enwedig milwyr yr Eidal, yn arddangos lefel seithgwaith yn fwy o lymffoma; mae namau geni ymhlith plant Irac yn llawer uwch na'r cyfartaledd cyffredinol, a gwelwyd cynnydd 20 gwaith mewn canser y fron yn sgil rhyfel y Balcanau.

### Canolfannau Ailgylchu Canser

Mae'r LLRC yn ystyried ysbytai fel 'canolfannau ailgylchu canser'. Mae paratoi radio-isotopau ar gyfer trin canser, llosgi gwastraff clinigol, ei daflu i mewn i garthffosydd, a llosgi slwtsh carthffosiaeth oll yn chwydu gronynnau i mewn i'r atmosffer sy'n cael eu hanadlu a'u llyncu gan bawb.

### Pryderon

Mae'r LLRC wedi crynhoi cronfa ddata anferth – sy'n dal i dyfu - o ystadegau a fydd, gobeithio yn cael eu cynrychioli'n deg pan gyhoeddir adroddiad CERRIE, ac y gweithredir ar eu sail.

Mae'n rhaid i LLRC oresgyn y farn a'r fethodoleg wyddonol uniongred sydd wedi cael ei derbyn ers cyhyd a'i chefnogi gan lobi anhygoel o bwerus a dylanwadol – yr echel filwrol/ddiwydiannol sydd wedi cydweithio'n glos gyda'r naill lywodraeth, ac asiantaeth lywodraeth, ar ôl y llall, a bwydo syniadau yn syth i mewn i bolisïau gwladol. Mae'n galonogol fod yr LLRC wedi profi, drwy ddyfalbarhau â'i ymdrechion i ddod â'r wybodaeth ddiweddaraf i sylw'r cyhoedd, ei bod yn bosibl newid barn pobl mewn swyddi dylanwadol. Mae Marion Hill, gynt o'r NRPB, yn dweud yn awr nad yw'r llywodraeth yn derbyn y dystiolaeth wyddonol orau, ac mewn llythyr at ei AS lleol – a ddangosir ar wefan yr LLRC – dywed fod y cyrff gwarchod swyddogol wedi methu, ac y dylid cael rhywbeth arall yn eu lle.

Yng ngeiriau Richard Bramhall, *"rhaid i ni roi'r gorau i osgoi'r pwnc neu edrych arno â'n llygaid ar gau. A ydy'r rheithgor yn dod i ddedfryd o blaid neu yn erbyn? Os ydy'n ddedfryd 'o blaid', yna mae'n rhaid datgymalu'r diwydiant yma, yn foesol ac o safbwynt iechyd".*

Er mwyn yr *Hibakusha*, plant glannau Menai, pobl yn Irac ac yn ucheldiroedd Cymru, a phawb yn mhedwar ban y byd sy'n fyw heddiw ac yn dioddef nam ar eu hiechyd oherwydd llygredd ymbelydrol mewnol, a chenedlaethau i ddod, rhaid i ni barhau i ymgyrchu i roi terfyn ar y diwydiant niwclear.

*Ymddangosodd fersiwn wreiddiol yr erthygl hon yn rhifyn Gorffennaf 2004 o'r 'Free Flyer'. Diolch i'r awdur, Joe E. Mellor am ganiatâd i gyhoeddi fersiwn wedi ei olygu ohoni.*


heddweithredu

**Er mwyn dysgu mwy am waith yr Ymgyrch Ymbelydredd Lefel-isel, cysyllter â: (01597) 824 771 ebost: info@llrc.org. gwefan: www.llrc.org.**

# "Caneuon i Mahmud"

***Yr albwm newydd gan David Rovics wedi ei hadolygu gan Lotte Reimer***

Ar y 18fed o Fehefin chwaraeodd David Rovics ac Attila the Stockbroker gyngerdd yn Aberystwyth. Achlysur oedd hwn, a drefnwyd gan Rwydwaith Heddwch a Chyfiawnder Aberystwyth, i godi arian ar gyfer Comisiwn Hawliau Dynol Guantánamo a'u hymgais i roi terfyn ar garcharu heb achos llys. Er bod Attila'n adnabyddus i gynulleidfaoedd yn y DU, bydd David Rovics yn wyneb newydd i lawer. Roedd y canwr celfydd o'r UD yn ysgubol, ac mae eu 'ganeuon o bwys cymdeithasol' yn haeddu cael eu clywed gan y gynulleidfa ehangaf bosib. Yn ôl Andy Kershaw, David yw etifedd haeddiannol y canwr protest diarhebol Phil Ochs. Mae David yn danbaid ei feirniadaeth ar fydehangu, rhyfel ac anghyfiawnder ac mae'n defnyddio cyfuniad cyfareddol o hiwmor, dychan a geiriau teimladwy i fynegi ei anfodlondeb. Mae geiriau David yn ysbrydoli pobl i weithredu, ac yn achosi i'r gynulleidfa chwerthin un funud, wylo'r nesaf, a chydganu gydag e.




Ar ei CD ddiweddaraf, 'Songs for Mahmud', mae David Rovics yn gofyn cwestiynau camarweiniol o syml fel 'Pwy fyddai Iesu'n eu bomio?', gan gwestiynu ar y lefel ddyfnaf sêl Gristnogol hunangyfiawn Americaniaid Bush. Mae David yn *troi'n* fachgen bach Palestinaidd, Mahmud, a laddwyd gan luoedd goresgyniad Israel am y drosedd o ddal adar yn Llain Gasa (*Song the Songbird Sings*). Mae'n un o'r llu o bobl ifanc sy'n cael eu darnladd mewn rhyfeloedd dirifedi (*All Of The Ghosts That Walk This Earth*). Mae'n Balestiniad digartref (*I Wanna Go Home*). Mae'n plannu gerddi yn y ddinas (*More Gardens Song*), ac yn canu ar ran planed sydd ar ei gwely angau (*Here At The End Of The World*). Mae'n datgan y gwirionedd plaen ynglwn â G W Bush (*Moron*), ac yn canu am fuddugoloiaeth cymunedau sy'n gweithredu (*Song For The SOA 2*).

Mae'r rhain a nifer o draciau cyfareddol eraill yn golygu fod 'Songs for Mahmud' yn ychwanegiad gwych at gatalog David: mae'n eich gorfodi i'w phrynu! Mae'n cyfryngau a'u perchnogion pwerus yn sicrhau na chewch ei weld ar Top of the Pops, darllen adolygiad yn y wasg brif-ffrwd, dod o hyd iddo ar silffoedd y siopiau cerdd mawr neu ei glywed ar y prif orsafoedd radio (ag eithrio yng nghwmi Andy Kershaw). Felly, gwnewch ffafr gerddorol aruthrol â'ch hunan, ac ymwelwch â gwefan David - www.davidrovics.com - ac archebwch 'Songs for Mahmud' nawr!

***(Mae CDiau eraill David Rovics yn cynnwys Hang a Flag in the Window, Living in These Times, a Return. Mwynhewch wrando ar y cwbl.)***

# Apêl Hawliau Dynol Guantánamo

Mae Comisiwn Hawliau Dynol Guantánamo yn ceisio cyfiawnder ar gyfer carcharorion Bae Guantánamo, sy'n cynnwys rhai o Brydain. Yn y tymor hir, y nod yw rhoi terfyn ar bob math o garcharu heb achos llys. Ar y cyd ag CND Cymru, mae Rhwydwaith Heddwch a Chyfiawnder Aberystwyth yn apelio am arian i helpu gwaith y Comisiwn. Fel y mae Azmat Begg, tad y carcharor Moazzam yn erfyn: "Os oes cyhuddiadau yn erbyn fy mab, rhowch wrandawiad iddo. Gadewch iddo ddod ger bron llys barn yma yn ei wlad ei hun, Prydain. Os ceir ef yn euog, boed iddo gael ei gosbi. Fel arall, dylai gael mynd yn rhydd."

heddweithredu

**A fyddech cystal â gwneud sieciau'n daladwy i "Guantánamo Human Rights Commission" a'u danfon at GHRC, PO Box 9497, Birmingham B24 9ZY, yn cynnwys nodyn yn dweud 'Apêl Heddwch'. Mwy o wybodaeth ar www.guantanamohrc.org**

# Canolfannau milwrol ac ysbïo'r UD ym Mhrydain

*Papur cefndir newydd gan Grwp Ymgyrchu dros Heddwch a Rhwydweithio Heddwch a Thystiolaethu Cymdeithasol y Crynwyr, Mehefin 2004* - **Mynnwch gopi yn rhad ac am ddim nawr**

Mae rhwydwaith o ganolfannau milwrol ym mhedwar ban y byd yn rhoi llwyfan byd-eang i'r Unol Daleithau ar gyfer rhyfela ac ysbïo. Mae rhyw 16,500 o staff yr UD wedi eu lleoli ar 35 safle ym Mhrydain ac ar ddwy diriogaeth ynysig yn Ne Môr Iwerydd a Chefnfor India.

Mae'r papur cefndir hwn yn trafod hanes a statws canolfannau'r UD ar diriogaeth Prydain ac yn archwilio eu diben o fewn agenda strategol yr UD. Mae'r papur yn archwilio'r modd mae statws a'r safleoedd eu hunain yn osgoi archwiliad cyhoeddus. Tra'n ategu'r gyfeillgarwch ddiwylliannol rhwng Prydain a'r UD, mae'r papur yn dadlau fod y gynghrair strategol gyda'r UD yn cysylltu Prydain ag agenda droseddol a fydd yn costio'n ddrud i'r byd.

Disgrifir prif wersylloedd yr UD ar diriogaeth Prydain mewn atodiad gan ganolbwyntio'n enwedig ar y rhai yn Lakenheath a Menwith Hill a chyd-ganolfan Prydain a'r UD yn Fylingdales. Mae'r papur hefyd yn cynnig awgrymiadau ar gyfer gweithredu.

**Lawrlwythwch gopi mewn fformat PDF ...**

... gyda lluniau, 865 KB o <http://www.quaker.org.uk/peace/qpsdocs/usintelp.pdf>

... neu heb luniau, 243 KB o <http://www.quaker.org.uk/peace/qpsdocs/usintel.pdf>

*Neu, i gael copi caled (24 tudalen), sgrifennwch at David Gee, Quaker Peace & Social Witness, Friends House, Euston Road, Llundain NW1 2BJ ffôn: (020) 7663 1067 ebost: davidg@quaker.org.uk*

# Polisi Bush yn y gofod

## *Pam ddylech chi fod yn poeni*



Ym mis Ionawr 2004 cyhoeddodd George W Bush ei weledigaeth ar gyfer Chwilio'r Gofod. Y pwyntiau allweddol oedd:

- Cwblhau'r Orsaf Ofod Ryngwladol erbyn 2010 (pan fydd yr UD yn tynnu allan o'r project).
- Datblygu cerbyd archwilio a fydd yn gallu cario pobl i deithio y tu hwnt i'r Ddaear.
- Ailgychwyn archwilio'r lleuad ddim hwyrach na 2020 er mwyn defnyddio'r lleuad fel cam cyntaf teithiau pellach i'r gofod, gan ddechrau gyda'r blaned Mawrth.

Ym mis Chwefror 2004, cyhoeddodd yr Arlywydd Bush y byddai cyllideb NASA ar gyfer 2005 yn cynyddu o 5.6%, i $16.2 biliwn. Mae'n debyg fod a wnelo amseru'r cyhoeddiadau hyn ag etholiadau mis Tachwedd yn yr UD. Mae'r siwr y bydd Bush yn chwilio am 'themâu mawr' i arwain ei ymdrech i gael ei ailethol. Y taleithiau sydd yn debyg o elwa fwyaf ar deithiau i'r gofod yw Florida a California. Gallai'r ddwy dalaith fod yn allweddol o safbwynt ei ailethol.

### *Felly – pam ddylwn i boeni?*

#### Pwer Niwclear yn y Gofod

Mae NASA'n hawlio, am fod pellter mor anferth rhwng y Ddaear, Mawrth a mannau pellach, mai'r unig ffynhonnell bwer y gellir ei defnyddio yw Pwer Niwclear.
Mae mynd ag adweithydd niwclear o unrhyw fath i'r gofod yn gofyn amdani. Mae damweiniau'n digwydd. Digwyddodd deuddeg damwain y gwyddom ni amdanynt rhwng 1964 a 1996. Mae'r digwyddiadau hyn yn bendant wedi achosi lefel uwch o ganser mewn bodau dynol sydd wedi anadlu neu lyncu gronynnau o blwtoniwm neu wraniwm.
Ar ôl llygru'r ddaear gyda radio-niwclidau sy'n achosi niwed parhaol, mae'r ddynoliaeth fel pe bai'n benderfynol o ledaenu eu llygredd ymbelydrol ffiaidd ar draws y bydysawd.

#### Archwilio'r Gofod fel Ceffyl Caerdroia i gynnal mantais filwrol yr UD

Byddai troedle ar y lleuad yn ddefnyddiol iawn i awdurdodau milwrol yr UD. Heb dechnoleg wedi ei lleoli yn y gofod, byddai gallu'r UD i 'ymateb' yn gyflym i sefyllfaoedd byd-eang yn llawer llai. Wrth i nifer gynyddol o wledydd ddatblygu eu technoleg ofod eu hunain, mae'r UD yn poeni fwyfwy fod eu mantais dechnolegol yn y gofod yn lleihau, a bod eu harfau gofod yn fwy agored i ymyrraeth gwledydd sy'n bygwth ei thra-arglwyddiaeth economaidd a milwrol. Cred yr UD y gallai China fod yn gobeithio defnyddio'r gofod i ddibenion milwrol. Efallai mai ymateb i hyn yw diddordeb Bush yn y gofod, yn enwedig gan fod tra-arglwyddiaeth filwrol ar y gofod yn rhan allweddol o gynlluniau Amddiffyg Taflegrau yr UD.

Mae'r Unol Daleithiau'n bwriadu rhoi synwyryddion, radar a systemau taflegrau yn y gofod, i ganfod taflegrau ymosodol, dilyn eu trywydd a'u dinistrio. Ym mis Chwefror 2004, dangosai papurau cyllideb a ddanfonwyd at gyngres yr UD swm amhenodol ar gyfer "cydrannau rhyng-gipio (taflegrau) technoleg-uwch, ysgafn, i'w lleoli yn y gofod" a $47 miliwn i gychwyn "datblygiad technolegol arfau o'r fath ac eraill y gellid eu ffurfio'n raddol yn darian taflegrau aml-haenog, gan gychwyn ym mis Ionawr 2012".

Gallai hyn fod yn fan cychwyn ras ofod newydd rhwng yr UD a China. Ysgogiad gwreiddiol y ras ofod rhwng yr UD a'r Undeb Sofietaidd oedd awydd i fod ag arfau yn y gofod yn anelu at ddinasoedd ei gilydd. Mewn gwirionedd, aeth y ddwy wlad (ynghyd â rhyw 90 o wledydd eraill) ymlaen i arwyddo 'Cytundeb y Gofod' ym 1968 sy'n gwahardd lleoli arfau niwclear yn y gofod. Mae UDA yn awr fel pe bai'n benderfynol o gefnu ar y cytundeb hwn. Mae cynlluniau amddiffyn taflegrau'r UD yn anogaeth i China i ddatblygu eu harfogaeth niwclear er mwyn gallu goresgyn tarian taflegrau'r UD. Mae hynny, yn ei dro, yn gwthio cymdogion China, India a Pakistan, i gynyddu eu harfogaeth niwclear hwythau.

#### Hawlio perchenogaeth ar adnoddau'r Lleuad

Rheswm arall dros ddiddordeb llywodraeth Bush yn y gofod yw y byddai bod â phresenoldeb dynol ar y lleuad yn galluogi'r Unol Daleithiau i elwa ar adnoddau toreithiog y tu hwnt i'r ddaear. Mae gwyddonwyr wedi darganfod Heliwm-3, un o isotopau prin Heliwm cyffredin, ar y lleuad. Mae Heliwm-3 yn danwydd ymasiad niwclear a ystyrir yn danwydd a allai gymryd lle cyflenwad tanwydd ffosil y ddaear wrth i hwnnw ddarfod.
Amcangyfrifir fod y Lleuad yn cynnwys digon o Heliwm-3 i bweru'r Ddaear am filoedd o flynyddoedd.
Meddai Lawrence Joseph, mewn erthygl yn y New York Times ym 1995, " Os anwybyddwn bosibiliadau'r tanwydd hynod hwn, gallai'r genedl lithro yn ôl yn y ras i reoli'r economi fyd-eang." Mae'n awgrymu, os gall yr UD ennill monopoli ar Heliwm-3, na fyddai rhaid iddi boeni wedyn ynglwn â Gwladwriaethau'r Gwlff a'u holew.

***Felly, mae 'na ddigon i boeni ynglwn ag e.***

*Golygwyd o bapur cefndir gan Shahid Khan mewn cydweithrediad ag CND Swydd Efrog.*

heddweithredu

**Am fwy o wybodaeth, gweler: Gwefan Ymgyrch Ddiarfogi Niwclear Swydd Efrog ar y Gofod sef: www.yorkshirecnd.org.uk/space neu cysylltwch â nhw: Yorkshire CND, 22 Edmund Street, Bradford, West Yorkshire, BD5 0BH (01274) 730 795 ebost: info@yorkshirecnd.org.uk**

Menwith Hill

# Gwersyll Heddwch Menywod 2004

Creodd protest Comin Greenham yn y 1980au yn erbyn lleoli Taflegaru Cruise yr UD ym Mhrydain broblem aruthrol i'w awdurdodau yn y DU ac UDA, a chyfeirir ati yn aml ar lwyfannau cyhoeddus mudiadau protest a gwrth-ryfel. Ugain mlynedd yn ddiweddarach, mae arfau niwclear o'r UD yn dal i fod wedi eu lleoli ar dir Prydain, ond yn awr, mae perygl y bydd taflegrau'n cael eu lleoli yma eto fel rhan o raglen 'Star Wars' yr UD.

Yng Nghomin Greenham, wynebodd menywod y 'rhyfelwyr', syllu i'w llygaid a herio eu GWALLGOFRWYDD. Mae angen menywod yma unwaith eto i ddefnyddio'u doniau arbennig i wrthwynebu a herio'r gwallgofrwydd milwrol yma sy'n parhau. Mae Menwith Hill a Fylingdales fel dau wersyll carchar marwolaeth yma yng nghalon swydd Efrog, a'r unig wahaniaeth yw bod yr holl bobl ddiniwed maen nhw'n cynllunio i'w lladd y tu allan i'r ffensys amgylchynol; maent ym mhedwar ban y byd, ac yn gwbl ddiamddiffyn yn erbyn arfau o'r gofod.

**Gwarchae! Gwarchae! Gwarchae!**

Mae angen i ni arddangos gwrthwynebiad parhaus i baratoadau at ryfel wrth glwydi pob gwersyll milwrol ym Mhrydain. Mae cyfle di-ben-draw i bawb i brotestio. Gofynnwn am un brotest menywod-yn-unig i gadw Ysbryd Greenham yn fyw. Mae Penderfyniad 1325 y CU, a basiwyd ym mis Hydref 2000 yn galw ar fenywod i chwarae rhan mewn gwaith cadw'r heddwch mewn sefyllfaoedd ôl-wrthdaro.

**Yn Chwaerol, Helen John**

Canolfan ysbïo Menwith Hill ger Harrogate yng Ngogledd Swydd Efrog, Lloegr yw'r orsaf fonitro electronig fwyaf yn y byd. Fe'i rhedir gan Asiantaeth Ddiogelwch Genedlaethol (NSA) yr Unol Daleithau, ac mae'n un o rwydwaith byd-eang o ganolfannau Gwybodaeth Negeseuon (SIGINT) sy'n monitro systemau cyfathrebu'r byd ac yn danfon gwybodaeth at bencadlys NSA yn Fort Meade yn Maryland, UDA. Sefydlwyd NSA drwy orchymyn Arlywyddol ym 1952 heb unrhyw drafodaeth yng Nghyngres yr UD. Tan ychydig flynyddoedd yn ôl, roedd bodolaeth NSA yn gyfrinach, ac mae ei siarter ac unrhyw sôn am ei weithgareddau yn wybodaeth waharddedig. Ychydig iawn a uyr pobl America amdano – ac maen nhw'n gwybod llai fyth am Menwith Hill.

### heddweithredu

Rydym yn galw nawr am i lawer mwy o fenywod chwarae rhan mewn atal y lladd ac atal y cynlluniau i ladd. Rydym am i bob cytundeb milwrol presennol gydag UDA i gael ei ddileu, ac am i bob gwersyll milwrol UD gael eu symud oddi ar dir Prydain. O Gymru y tarddodd protest Comin Greenham. Fenywod, dewch i ailadrodd hanes yn Menwith! Mae tair o faneri mawr Gwersyll Heddwch Menywod Menwith Hill wedi mynd ar goll, a byddai cyfraniadau i helpu gyda chost rhai newydd yn wych. Gwersyll Heddwch Menywod yn Menwith Hill: trydydd penwythnos pob mis a'r 11-13 Rhagfyr 2004. Edrychwn ymlaen at eich cefnogaeth. Cysyllter â Helen John: (01943) 468 593 helenmenwith@yahoo.co.uk

# Ymgyrchwyr o Gymru'n Galw am Annibyniaeth oddi wrth America

Ar y 4ydd o Orffennaf, Dydd Annibyniaeth America, cymerodd gweithredwyr heddwch o Wrecsam a'r Canolbarth ran mewn gwrthdystiad ger Gorsaf Awyrlu'r UD yn Menwith Hill, Swydd Efrog a drefnwyd gan CAAB (Yr Ymgyrch dros Atebolrwydd Gwersylloedd Americanaidd). Trosglwyddwyd y darn hyfryd hwn o Ogledd Swydd Efrog i'r Americaniaid wedi 1945 a nawr, hon yw'r orsaf fonitro electronig fwyaf yn y byd. Cyflogir sifiliaid ac aelodau o luoedd arfog yr UD i ryng-gipio a dadansoddi deunydd telegyfathrebu rhwng Ewrop a Phrydain. Mae hyn yn cynnwys galwadau ffôn preifat, ffacsys, ebyst (ie, eich rhai chi, efallai) a dulliau eraill o gyfathrebu. Mae llawer iawn o'r wybodaeth hon yn cael ei holrhain gan loerennau ysbïo sy'n ei throsglwyddo i ddysglau derbyn lloeren yn yr orsaf. Mae'r datblygiadau newydd yn Menwith Hill yn gysylltiedig â rhaglen "Star Wars" America.

Bydd yr ehangu sy'n mynd rhagddo yn Menwith yn helpu Rheolaeth Gofod yr UD yn ei genhadaeth i 'weld a chlywed' popeth ar wyneb y ddaear a galluogi arfau laser i gyrraedd unrhyw le ar y ddaear, o fewn rhyw chwe troedfedd i darged. Bydd yr orsaf yn chwarae rhan hollbwysig mewn unrhyw wrthdaro byd-eang, ac oherwydd hynny, byddai'n brif darged ar gyfer ymosodiad.

Mae ASEau wedi mynegi pryder fod Menwith Hill yn tanseilio swyddi a busnesau Ewropeaidd drwy werthu cyfrinachau masnach Ewropeaidd i gwmnïau yn yr UD. Mae'r awdurdodau Americanaidd yn tueddu i wrthod ateb cwestiynau, rhoi unrhyw wybodaeth neu adael newyddiadurwyr, ASau neu ASEau i mewn i'r safle. Gwrthodir rhoi ateb i lawer o'r cwestiynau a ofynnir yn Nhw'r Cyffredin ynglwn â Menwith.

Meddai Genny Bove, o Fforwm Heddwch a Chyfiawnder Wrecsam: ***"Cymerais ran yn y gwrthdystiad heddychlon hwn i wneud pobl yn ymwybodol o'r ffaith fod Menwith Hill yn ddarn bach o America ar dir Prydain, ac i hawlio y dylai Prydain fynnu bod yn annibynnol ar America, a chau'r Ganolfan Ysbïo yma a dychwelyd y tir i bobl Prydain. Ni ddylem fod yn cefnogi ehangu milwrol yr UD, ond yn gwneud y cwbl a fedrwn i atal y broses hon gan ei bod yn fwyfwy amlwg fod yr UD yn wladwriaeth beryglus, sy'n amlwg yn euog o'r holl droseddau mae hi ei hun yn eu defnyddio fel esgusodion i oresgyn gwledydd eraill neu danseilio eu llywodraethau.***

### heddweithredu

Am fwy o wybodaeth ynglwn â CAAB, gweler www.caab.org.uk Am fwy o wybodaeth ynglwn â Menwith Hill http://cndyorks.gn.apc.org/mhs/index.htm Am fwy o wybodaeth ynglwn â Fforwm Heddwch a Chyfiawnder Wrecsam, cysyllter â wrexhamsaw@yahoo.com neu ffoniwch (0845) 330 4505.



*"Ond gyfaill, does 'na neb yn mynd i fod yn ddigon gwirion i gychwyn rhyfel bom-H . . . "*

*A Oes Heddwch 1983*

# Dangos parch ym Mangor (UDA)

Cafodd pedwar ar ddeg eu restio yng nganolfan llongau tanfor Trident yr UD, Bangor yn ystod gweithred uniongyrchol ddi-drais i ddathlu Sul y Mamau. Caeodd gwrthdystwyr y fynedfa o'r ffordd fawr gyda baner a oedd yn dweud "y ddaear yw ein mam – parchwch hi".

**Rhy ofalus o blant gwlad arall**

Darllenodd gwrthdystwyr Broclamasiwn Sul y Mamau o 1870 gan Julia Ward Howe sy'n galw ar fenywod ym mhedwar ban y byd i roi terfyn ar ryfel. Mae'r Proclamasiwn yn dweud, *"Ni chaiff ein meibion eu cymryd oddi wrthym i ddad-ddysgu'r cwbl y gallasom ei ddysgu iddynt am gariad, trugaredd ac amynedd... byddwn ni, wragedd un wlad, yn rhy ofalus o rai gwlad arall i ganiatáu i'n meibion ni gael eu hyfforddi i niweidio eu meibion hwy."*

## Gweithredu di-drais yn gweithio

Os dygir cyhuddiadau ffurfiol yn erbyn y rhai a restiwyd, hon fyddai'r ymgais gyntaf i erlyn gwrthdystwyr di-drais ers mis Chwefror 2000. Mae erlynwyr Kitsap County wedi methu sicrhau dedfryd euog yn erbyn gweithredwyr di-drais a restiwyd ym Mangor y tair gwaith diwethaf y ceiswyd gwneud hynny. Mae rheithgorau a barnwyr wedi barnu fod gan y bobl a restiwyd ym mhrotestiadau Bangor yr hawl gyfreithiol i unioni cam, o dan y gyfraith ryngwladol a chyfraith yr UD, drwy weithredu uniongyrchol di-drais.

## Tystysgrifau gwerthfawrogiad

Eleni, ar gyfer Sul y Mamau, gwaeth Canolfan Ground Zero dros Weithredu Di-drais y cysylltiad amlwg rhwng ralïau heddwch a gwrth-ryfel a'r ymchwydd o wrthwynebwyr cydwybodol ac ymgyrchoedd yn erbyn recriwtio i'r lluoedd arfog. Cyhoeddodd Ground Zero lu o dystysgrifau gwerthfawrogiad i fenywod a dynion o oed cael eu galw i'r fyddin a fynychodd y digwyddiad. Diben y rhain yw helpu pobl ifanc i ddogfennu eu gwrthwynebiad cydwybodol i ryfel.

Cynhelir y weithred uniongyrchol nesaf ym Mangor ar 59-mlwyddiant bomio Nagasaki, Japan, ar Awst 9fed. Canolfan llongau tanfor Trident Bangor yw'r storfa arfau niwclear weithredol olaf ar Arfordir Gorllewinol UDA, a chedwir rhyw 1,760 o ergydion niwclear yno. Mae'r ganolfan wedi cael ei hailadeiladu'n ddiweddar er mwyn gallu cartrefu system daflegrau fwy o faint a mwy effeithiol Trident D-5. Gall pob un o'r 24 o daflegrau D-5 ar long danfor Trident gario wyth o'r ergydion W-88 475 kiloton mwy o faint. Mae pedair o longau tanfor hwn ym Mangor yn cael eu hailffitio i gario taflegrau cruise Tomahawk. Bydd pob un o'r llongau tanfor hwn yn gallu lansio 154 o'r taflegrau hyn o fewn cyfnod chwe-munud o hyd.

**heddweithredu**

**Danfonwch negeseuon cefnogi at: Ground Zero Center for Nonviolent Action, 16159, Clear Creek Road, NW Poulsbo, WA 98370 UDA Tel: +1-360-779-4672 e-bost: info@gzcenter.org** Gwefan: www.gzcenter.org

# Cloriannu Trychineb Damweiniau Trident yr UD

Does dim system arfau yn arfogaeth yr UD sydd mor beryglus i'w gweithredu â llong danfor Trident submarine. Does gan yr un arf arall gymaint o ddeunydd ffrwydrol, ar ffurf tanwydd roced solet, a'r nifer o ergydion niwclear wedi eu pacio'n dynn i mewn i le cyfyng.

Ym mis Tachwedd llynedd, cododd criw trin taflegrau yn Bangor, Talaith Washington, UDA daflegryn Trident C-4 i mewn i ysgol a oedd wedi cael ei gadael yn y tiwb saethu. Gwnaed twll naw-modfedd yn nhrwyn y taflegryn wrth i'r ysgol ddod o fewn modfeddi i ergyd niwclear byw. Ataliwyd pob gwaith trin taflegrau yn y Cyfleuster Arfau Strategol am naw wythnos nes i ganolfan Bangor allu cael ei hardystio ar gyfer trafod arfau niwclear eto. Cafodd tri phennaeth eu diswyddo.

Pan ddaeth y cyhoedd i wybod am y ddamwain ym mis Mawrth eleni, roedd llawer yn cydnabod fod y Llyges yn pryderu am ddiogelwch, ond methwyd sylweddoli un ffaith o bwys hanfodol – sef bod nam cynhenid yn nyluniad y taflegryn. Mae Lockheed Martin a'r Llynges o'r farn fod tanwydd Trident 1.25 y cant yn fwy ffrwydrol na TNT confensiynol, Mae rhai profion yn dangos ei fod ddwywaith mor anwadal â TNT. Mae'n bosib i'r tanwydd hwn ffrwydro os caiff ei daro gan rywbeth. Pe bai'r ysgol wedi taro'r modur roced trydydd-cam yn ddigon caled, byddai'r ffrwydrad a fyddai wedi dilyn hynny wedi tanio'r moduron roced cam cyntaf ac ail gam llawer mwy o faint, a gwasgaru plwtoniwm ar hyd a lled Puget Sound.

Ym mis Gorffennaf 2003, llwyddodd achos llys ffederal, Milner v. US Department of the Navy [a ddygwyd gan yr awdur], i orfodi'r Llynges i ddatgelu ei harolwg o ddamweiniau taflegrau Trident a'i dadansoddiad o berygl y tanwydd. Er bod yr arolygon diogelwch yn ystyried effaith corwynt a chraen yn torri, doedd dim sôn am dechnegwyr taflegrau'n mynd am goffi ac anghofio'u hysgol yn y tiwb tanio. Ni chafodd nifer o ddigwyddiadau achosol eraill, fel pethau'n cwympo a thanau trydanol, eu hystyried oherwydd roedd yr arolwg o'r farn fod y fath ddigwyddiad ar Lanfa Trin Ffrwydron Bangor yn rhy annhebygol i'w ystyried.

Mae gan un llong danfor Trident, wedi ei llwytho â'r taflegrau D-5 newydd, danwydd roced solet cyfwerth â 3.7 miliwn pwys o TNT ynddi, a fyddai â grym ffrwydrol bom niwclear 1.8 kiloton. Ychwaneger at hynny yr adweithydd niwclear a hyd at 192 o ergydion niwclear ar un llong danfor Trident.

Ym mis Mehefin June 2001, daeth clymblaid o ddau sefydliad amgylcheddol a thri mudiad heddwch ag achos ffederal yn erbyn y gwaith uwchraddio D-5 yn Bangor. Mae'r achos, a oedd yn canolbwyntio ar beryglon trin taflegrau, bellach yn Llys Apêl y 9fed Gylchdaith. Mae'r perygl o ddamwain drychinebus yn Bangor yn anferth. Gallai'r Llynges golli canolfan weithredu ar gyfer rhyw 25 y cant o daflegrau'r genedl sy'n barod i'w defnyddio. Gallai dinasyddion Puget Sound golli eu cartrefi a'u bywydau a gallai niferoedd mawr o bobl ddioddef afiechydon erchyll a chael niwed genynnol.

*Golygwyd o erthygl gan Glen Milner sy'n byw yn Seattle ac sy'n aelod o'r Ground Zero Center for Nonviolent Action yn Poulsbo, Washington. Gweler www.gzcenter.org.*



## egluro un o ddirgelion san steffan

# Beth yw Cynnig Boreol?

**Datganiad ysgrifenedig byr o ffeithiau, cred neu farn yw Cynnig Boreol (*Early Day Motion* neu EDM), a gyhoeddir gan AS; mae'n gofyn i'r llywodraeth ddatgan ei farn ar fater o bolisi, arfer neu drefniadaeth.**

Mae'r EDM yn bodoli fel ffordd o ganiatáu i Aelodau gofnodi eu barn ar bwnc neilltuol, a cheisio cefnogaeth iddo gan eu cyd-Aelodau. Dyfais yw gosod EDM ger bron i dynnu sylw at fater neilltuol, ac i geisio cefnogaeth drwy wahodd ASau eraill i ychwanegu eu llofnod, h.y., mae'n fath o ddeiseb y gall ASau eu harwyddo. Po fwyaf o ASau sy'n arwyddo EDM, y mwyaf llwyddiannus y bydd o ran denu sylw'r wasg a chyffroi barn gyhoeddus ac, yn y pen draw, efallai y bydd yn gorfodi'r llywodraeth i weithredu.

Ni fyddai AS yn disgwyl i EDM gael ei drafod yn ffurfiol. Gall ASau gynnig gwelliannau i EDM hefyd. Fodd bynnag, gall y grup o EDMs y cyfeirir atynt fel 'prayers' gael eu trafod. Cynigion i ddiddymu neu ddadwneud Offerynnau Statudol yw 'prayers', ac maent yn cynnwys y geiriad 'y dylid cyflwyno Anerchiad Gostyngedig i'w Mawrhydi, yn gweddïo am i [teitl y ddeddfwriaeth], y gosodwyd copi ohoni ger bron y Tw hwn ar [dyddiad], gael ei diddymu.' Mae llawer o ASau yn croesawi'r ffaith fod eu hetholwyr yn galw eu sylw at EDMs sydd wedi cael eu rhoi ger bron.

**Sam Akaki**
**Swyddog Seneddol CND Prydeinig**

heddweithredu

**Mae tri Chynnig Boreol neilltuol o berthnasol i'n hymgyrchoedd y galwn arnoch i annog eich AS i'w harwyddo. Copïwch yr EDM, danfonwch y copi at eich AS, Tw'r Cyffredin, Llundain SW1A 0AA gyda llythyr byr o eglurhad. Gallwch hefyd ffacsio'ch AS: www.faxyourmp.co.uk; ei ffonio drwy gyfrwng Tw'r Cyffredin (tel 020 7219 3000); neu ebostio drwy http://www.parliament.uk/directories/hciolists/alms.cfm.**

### EDM 1407
### Adnewyddu Cytundeb Cyd-Amddiffyn yr UD-DU a'r CAY
**24.06.04 Llew Smith (Blaenau Gwent)**

Fod y Tw hwn yn nodi'r estyniad 10-mlynedd arfaethedig i Gytundeb 1958 rhwng y Deyrnas Unedig a'r Unol Daleithau ar Gydweithrediad ar ddefnyddiau Ynni Atomig i ddibenion Cyd-Amddiffyn, fel y'i gwellwyd, awgrymwyd yn Cm 6261 fel y'i rhoddwyd ger bron y Senedd ar yr 21ain o Fehefin; yn credu fod estyn y cytundeb dwyochrog hwn yn tanseilio ymrwymiadau'r Deyrnas Unedig a'r Unol Daleithau o dan Erthygl 1 o Gytundeb Atal Ymlediad Niwclear (CAY) 1968, y maent yn ymddiriedolwyr ar ei gyfer, sydd yn datgan fod pob gwladwriaeth arfau-niwclear sydd wedi arwyddo'r Cytundeb yn addo peidio â throsglwyddo i unrhyw dderbynydd o gwbl unrhyw arfau niwclear neu ddyfeisiau niwclear ffrwydrol arall, neu reolaeth dros y fath arfau neu ddyfeisiau ffrwydrol, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol; yn pryderu nad yw'r Llywodraeth yn gweld gwrthdaro buddiannau posibl rhwng y CCA ac ymrwymiad y Deyrnas Unedig i'r CAY fel y cafodd ei ddatgan gan yr Arglwydd Bach yn Nhw'r Arglwyddi ar yr 22ain o Fehefin, yng ngholofn 1119; yn cofio sylw cynhadledd adolygu'r CAY, Prif Bwyllgor ar yr 8fed o Fai 1995 fod amrywiaeth dehongliad ymhlith parti-wladwriaethau o rai agweddau ar Erthyglau I a II y mae angen eu gwneud yn glir, yn enwedig parthed dyletswyddau parti-wladwriaethau arfau niwclear ymhlith ei gilydd . . . a allai fod wedi arwain at drosglwyddo arfau niwclear sy'n tramgwyddo ysbryd ac amcan Erthygl I [o'r CAY]; a gan hynny'n galw am ddadl yn ystod amser y Llywodraeth cyn rhoi cymeradwyaeth bosibl i'r cytundeb hwn, fel y'i gwellwyd.



### EDM 1023
### VANUNU A DIARFOGI NIWCLEAR
**21.04.04 Llew Smith (Blaenau Gwent)**

Fod y Tw hwn yn croesawu rhyddhad, ar ôl 18 mlynedd o garchar, Mordechai Vanunu, yr arolygydd arfau dinistr torfol niwclear gwreiddiol yn Israel, ar yr 21ain o Ebrill; yn gresynu'r cyfyngiadau pellach ar ei ryddid i lefaru a symud sy'n cael eu gweithredu gan Lywodraeth Israel; yn cefnogi'n llwyr ei ddatganiad pan gafodd ei ryddhau o'r carchar: 'Nid oes angen arfau niwclear ar Israel. Fy neges i'r byd heddiw yw: agorwch adweithydd Dimona i gael ei arolygu'; yn cefnogi ei apêl bellach am i holl arfau niwclear y byd gael eu datgymalu; ac yn galw ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i gymryd y cam cyntaf drwy ddadgomisiynu Trident.

### EDM 1355
### YNYSWYR CHAGOS
**15.06.04 Jeremy Corbyn**

Fod y Tw hwn yn cydnabod anghyfiawnder hanesyddol symud holl drigolion Diego Garcia ac Ynysoedd Chagos er mwyn gwneud lle i ganolfan yr UD ar Diego Garcia; yn nodi, o dan amodau Deddf Tiriogaethau Tramor Prydain 2002, y rhoddwyd dinasyddiaeth Brydeinig i'r trigolion, ac y corfforwyd eu hawl i ddychwelyd yng Ngorchymyn Llys 2000; a'i fod felly'n syfrdanu at gyhoeddi Gorchymyn Tiriogaethau Tramor Prydain (Deddfwriaeth) 2004 a Gorchymyn Tiriogaethau Tramor Prydain (Cyfansoddiad) 2004; ac yn galw ar y Llywodraeth i'w diddymu ill dau.

# Ni all holl beraroglau Arabia bereiddio llaw front Bush

**Ar y 26ain o Fehefin, gorymdeithiodd cannoedd o brotestwyr heddwch at Gastell Dromoland yng ngorllewin Iwerddon lle'r oedd Bush yn cwrdd ag arweinwyr yr Undeb Ewropeaidd mewn 'uwch-gynhadledd' UE-UD. Pan gawsant eu hatal ar y ffordd gan yr heddlu, llwyfannodd y protestwyr eu fersiwn eu hunain o drasiedi waedlyd Albanaidd Shakespeare.**

### Y ddrama Wyddelig

Darllenodd ysbryd enwau milwyr o'r UD a laddwyd yn Irac a darllenodd yr Arglwyddes Macbeth restr o Iraciaid a laddwyd. I gloi, rhoddodd gwrach â het dal ddu a mantell laes swyn ar ddyn yn gwisgo masg o wyneb Bush. Disgynodd y dyn i'r llawr wrth i'r wrach orchymyn iddo adael Iwerddon a dod â goresgyniad Irac i ben.




Roedd llwyfannu "MacBush" yn un o sawl digwyddiad a drefnwyd gan wrthdystwyr i ddangos eu dicter ynglwn ag ymweliad yr arlywydd. Roedd rhyw 10,000 o bobl wedi gorymdeithio drwy Ddulyn y noson cynt i wrthwynebu polisi'r UD yn Irac a phenderfyniad Iwerddon i groesawu Bush. Roedden nhw hefyd yn protestio yn erbyn y penderfyniad i roi caniatâd i awyrennau milwrol yr UD i godi tanwydd ym maes awyr (sifil) Shannon ar eu ffordd i'r Gwlff. Mae llywodraeth Iwerddon wedi troi'r maes awyr sifil hwn yn brif orsaf lenwi ar gyfer peiriant rhyfel yr UD wrth iddo oresgyn, meddiannu ac ysbeilio Irac. Yn ôl ffigurau swyddogol, teithiodd 125,855 o filwyr yr UD drwy Shannon i'r Dwyrain Canol y llynedd. Ers 18 mis bellach, mae 10,000 o filwyr y mis wedi defnyddio Shannon fel canolfan ar y daith i'r Dwyrain Canol.

### Y brotest Gymreig

Yr un pryd, cynhaliwyd gwrthdystiadau mewn Llysgenadaethau ac Is-genadaethau ym mhedwar ban. Cynhaliodd CND Cymru, Côr Cochion a gweithredwyr heddwch eraill wylnos heddwch y tu allan i'r Is-genhadaeth Wyddelig yn Nhw Brunel, Caerdydd gan alw sylw at y ffordd roedd llywodraeth Iwerddon wedi tramgwyddo niwtraliaeth Wyddelig.

Cynhaliwyd gwylnos Caerdydd ar gais CND Iwerddon a 'Pit Stop Ploughshares'. Cyflwynwyd llythyr oddi wrth CND Cymru i'r is-genhadaeth ar gyfer y Taoiseach Bertie Aherne, yn galw arno i barchu niwtraliaeth faith ac anrhydeddus Iwerddon, ac i gau maes awyr Shannon i ddefnydd milwrol. Dywedodd Ray Davies, Is-gadeirydd CND Cymru, wrth gyflwyno'r llythyr, *"Mae'r gorllewin wedi peri tlodi a dinistr yn Irac ers 12 mlynedd drwy sancsiynau, ac mae bellach yn ei difrodi ymhellach drwy oresgyn a meddiannu'r wlad. Pwy sy'n talu'r pris? Iraciaid diniwed, milwyr ifanc a orfodwyd i mewn i'r fyddin drwy hysbysebu llithiol a'r addewid o swydd, a'r trethdalwr Prydeinig."* Wrth alw am ddadfilwreiddio Maes Awyr Shannon rydym hefyd yn galw am ddod â goresgyniad anghyfreithlon Irac i ben, ac am ddod â milwyr Prydain adref.



heddweithredu
**Mwy o wybodaeth:**
**Pitstop Ploughshares Ciaron O Reilly : +353 1 492 6100 (www.freewebs.com/mary_kelly/ (www.ploughsharesireland.org)**

# Diego Garcia

**Rhoddwyd hawl i'r UD ym 1966 i ddefnyddio Diego Garcia, ynys fwyaf Tiriogaeth Brydeinig Cefnfor India, fel lleoliad cyfleuster cyfathrebu a chefnogaeth i'r llynges a maes awyr. Fel rhan o drefniant oedd yn galluogi Prydain i brynu'r system arfau niwclear Polaris gan yr UD am bris llai, cafodd o leiaf 3,000 o Ynyswyr Chagos eu gorfodi i adael yr ynys.**

Cafodd yr ynyswyr, a gafodd eu hwfftio gan swyddog Prydeinig ar y pryd fel '... nifer fach o Darzaniaid a Men Fridays, o dras anhysbys...' eu gollwng yn llythrennol ar lan dociau Mauritius, a'u gadael i wynebu bywyd o dlodi a rhagfarn yn eu herbyn. Er i'r Uchel Lys Prydeinig ddyfarnu fwy na 30 mlynedd yn ddiweddarach, yn 2000, fod symud yr holl ynyswyr wedi bod yn 'fethiant cyfreithiol gwaradwyddus', ni chafodd yr ynyswyr ddychwelyd. Mae'r llywodraeth wedi mynnu erioed na fyddai'n ymarferol i'r ynyswyr ddychwelyd, gan egluro gyda gonestrwydd wynebgaled fod ei safbwynt ynglwn â dyfodol yr ynys wedi ei bennu gan 'ein buddiannau strategol ac ati, a'n hymrwymiadau cytundebol i UDA'.

Heddiw, mae Diego Garcia yn wersyll milwrol Americanaidd sydd wedi chwarae rhan bwysig mewn ymosodiadau ar Afghanistan ac Irac. Mae hefyd yn orsaf sy'n dilyn trywydd lloerennau yn y gofod. Yn strategol, mae'r ynys yn bwysig iawn i'r Unol Daleithau. Fel gwersyll yr UD yn 'RAF Fairford' ym Mhrydain, mae'n un o dri maes awyr y tu allan i'r UD a luniwyd ar gyfer yr awyrennau bomio hedfan-pell llechwraidd (*'stealth'*) B2 sy'n gallu cario bomiau niwclaer.

## Ergyd newydd y llywodraeth i ynyswyr Chagos

Ar ôl i'r ynyswyr ennill dyfarniad hanesyddol yn yr Uchel Lys a olygai'r hawl i ddychwelyd i'w mamwlad wedi 30 mlynedd mewn alltudiaeth, pasiwyd cyfraith fewnfudo newydd a oedd yn caniatáu i'r rheini a aned ar yr ynysoedd a'u plant i ddychwelyd i holl ynysoedd yr ynysfor *heb law am* Diego Garcia. Ac eithrio ychydig o ymchwil dechreuol ar 'ymarferoldeb' dychwelyd, does dim byd wedi cael ei wneud i adfer y Chagosiaid i'w mamwlad.

Ym mis Mehefin eleni, dywedwyd wrth dwrnai'r ynyswyr, Richard Gifford, fod y llywodraeth Brydeinig bellach wedi pasio deddf newydd sy'n gwahardd y Chagosiaid rhag dychwelyd i'w mamwlad byth eto. Yn waeth byth, roedd y gwaharddiad mewn grym yn achos pob un o'r 65 ynys, er mai dim ond un ohonynt sydd wedi cael ei meddiannu erioed gan Brydain neu'r UD. Mae'r datblygiad newydd hwn yn dileu'r fantais a enillwyd yn 2000 pan brofwyd fod eu symud 30 mlynedd yn flaenorol yn anghyfreithlon. Y rhesymau a roddwyd dros y penderfyniad hwn oedd cost (oherwydd y cynhesu byd-eang disgwyliedig!) a "buddiannau amddiffyn".

Does dim tystiolaeth o gwbl fod canolfan awyrlu'r UD, sydd â phoblogaeth o ryw 4,000 ar y tro, yn bwriadu cefnu ar yr ynys. I'w gwrthwyneb mae'r Americaniaid wedi gwario miloedd o ddoleri yn ddiweddar ar adeiladu llochesau arbennig ar gyfer eu hawyrennau bomio llechwraidd.

**Dywedodd twrnai'r ynyswyr:**
'Prin fod yna hanes mwy cywilyddus o gamdrin poblogaeth yn ystod yr oes fodern. Mae'n amhosib cysoni brwdrydedd y Llywodraeth dros weithredu Hawliau Dynol yn y Tiriogaethau Tramor â'r difrawder diofal yma tuag at werthoedd dynol sylfaenol.'

## Sgandal Arteithio

Datgelwyd fod y llywodraeth Brydeinig wedi caniatáu i'r CIA ac Adran Amddiffyn yr UD i redeg canolfan holi gwrth-frawychwyr gwbl gyfrinachol ar Diego Garcia. Does dim o'r carcharorion wedi eu diogelu gan Gonfensiwn Genefa, ac mae Cyfarwyddydd yr FBI, Robert Mueller wedi dweud fod y technegau holi a ddefnyddywr gan holwyr y CIA "yn tramgwyddo holl ddeddfau gwrth-arteithio America, a byddent yn cael eu gwahardd mewn achosion troseddol o'r math mwyaf difrifol". Mae'r technegau a ddefnyddir wedi eu cynnwys mewn llawlyfr CIA cyfrinachol ar holi cymhellol. Mae'n cynnwys adrannau o'r enw "Bygythiadau ac Ofn", "Poen", "Narcosis", "Cynyddu Hygoeledd a Hypnosis".

Gwyddys fod aelodau o MI6 a Mossad wedi ymweld â Diego Garcia i holi brawychwyr drwygdybiedig "gwerth uchel". Gwrthodwyd caniatâd i Amnesty a'r Groes Goch Ryngwladol i ymweld â'r ynys o dan gytundeb cyfrinachol rhwng Llundain a Washington.
Mae dyfarniad allweddol o'r UD yn datgan na fydd fydd gwaharddiadau ar dorri deddfau Americanaidd sy'n gwahardd arteithio, triniaeth ddiraddiol na Chonfensiwn Genefa mewn grym os "gellir dadlau fod y carcharorion yng ngofal ffurfiol gwlad arall". Gan fod Diego Garcia yn drefedigaeth Brydeinig, gallai hynny olygu y dylai'r carcharorion yno gael eu hamddiffyn gan Brydain.

Mae'r carcharorion ar Diego Garcia yn rhan o fwy na 9,000 o bobl sydd wedi eu carcharu mewn carchardai dan reolaeth filwrol yr UD, a sefydlwyd i'r diben. Dim ond y rhai y mae llawlyfr y CIA yn eu dynodi'n "rhai mwyaf anodd" sy'n cael eu danfon i Diego Garcia.

heddweithredu
**Mwy o wybodaeth gan:**
**Global Network Against Weapons & Nuclear Power in Space,**
**PO Box 652, Brunswick, ME 04011, + (207) 729-0517**
**http://www.space4peace.org**
**globalnet@mindspring.com**



# SAA Aldermaston yn cael caniatâd i ddatblygu laser newydd

**Mae cynghorau yn y Rhwydwaith Di-niwclear wedi galw am ymchwiliad cyhoeddus i gynlluniau'r llywodraeth i adeiladu cyfleuster laser anferth yng ngwaith arfau niwclear Aldermaston, Berkshire.**

Dywed y llywodraeth Brydeinig fod angen y laser i:

*"sicrhau fod arf niwclear strategol presennol y DU, "Trident", yn ddibynadwy heb i ni orfod gwneud profion maes, ac er mwyn (gallu) adeiladu ergyd niwclear newydd i gymryd lle Trident."*

Gallai'r cyfleuster laser gael ei ddefnyddio hefyd i ddylunio ac arbrofi â chenhedlaeth newydd o arfau niwclear yn dwyn ergydion llai, sy'n fwy tebygol o gael eu defnyddio. Mae datblygiadau o'r fath ar y gweill yn UDA. Mae llawer o ddadansoddwyr yn ofni fod datblygu a lleoli arfau niwclear llai yn dod â ni'n agosach at y dydd pan gânt eu defnyddio eto. Byddai hyd yn oed arf niwclear bychan yn achosi difrod heb ei fath ers y bomiau atomig a ddinistriodd ddinasoedd Hiroshima a Nagasaki ym 1945 gan ladd mwy na 200,000 o bobl.



**Aldermaston Pasg 2004**

Hysbysodd y Weinyddiaeth Amddiffyn Gyngor West Berkshire o'r cynnig, ond oherwydd nad yw'n dod o dan y cyfreithiau cynllunio hyd yn hyn, cynghorodd swyddogion y cyngor nad oedd ganddo unrhyw allu i wrthod caniatâd cynllunio ar gyfer y laser. O ganlyniad, ar y 23ain o Fehefin, penderfynodd y Cyngor na fyddai'n gwrthwynebu'n ffurfiol, a gwrthododd argymell y dylai'r datblygiad newydd yn y SAA fod yn destun ymchwiliad cyhoeddus anstatudol – a hynny er gwaethaf derbyn mwy na 300 o ddeisebau a gwrthwynebiadau ysgrifenedig, a'r ffaith fod y grup sy'n rheoli'r Cyngor yn gwrthwynebu arfau niwclear.

### Buddsoddiad amgen

Dywedodd ateb gan Gadeirydd Cyngor West Berkshire, Y Cynghorydd Keith Lock, i wrthwynebiad gan Faer Hiroshima, Dr Tadatoshi Akiba:

"Ein barn ni yw na ddylai'r Llywodraeth gynnal llu o longau-tanfor Trident, ac y byddai'n well gwario'r arian ar arfau confensiynol neu ar bethau eraill."

Ar ran yr Awdurdodau Niwclear Di-niwclear. dywedodd eu Cadeirydd Gweithredol, y Cynghorydd o Bury, Alan Matthews:

"Mae amrywiaeth barn yn y DU ynglwn â'r angen am i ni barhau i fod yn buer niwclear. Mae'n bryd ystyried yn agored gostau a buddiannau gwario gymaint ar raglen arfau pan fo angen cymaint mwy o gefnogaeth ar ein gwasanaethau cyhoeddus."

Yn y cyfamser, mae'r SAA yn parhau i wasanaethu'r system arfau niwclear Trident bresennol.

### Sarnu'r cytundebau

Mae'r rheini sy'n gwrthwynebu'r datblygiad arfaethedig yn ystyried y byddai'n tramgwyddo oblygiadau Prydain o dan gytundebau rhyngwladol. Mae Prydain wedi arwyddo a chymeradwyo'r Cytundeb Gwahardd Profion Cynhwysfawr, sy'n gwahardd profion niwclear a thrwy hynny'n lleihau'r tebygrwydd o ymlediad niwclear. Nid yw'r Cytundeb mewn grym eto, gan fod rhai gwledydd yn dal heb ei gymeradwyo, ond mae Prydain, yn gwbl gywir, yn ymatal rhag gwneud profion yn y cyfamser. Fodd bynnag, byddai efelychu profion drwy gyfrwng cyfrifiaduron mewn labordy fel yr arfaethir gwneud yn Aldermaston – er nad yw'n torri amodau'r Cytundeb yn ffurfiol – yn sicr yn ffordd o ochrgamu dibenion y Cytundeb ac, yn hynny o beth, yn tramgwyddo ysbryd y Cytundeb os nad ei lythyren.

Mae Prydain hefyd wedi arwyddo'r Cytundeb Atal Ymlediad Niwclear (CAY). O dan Erthygl VI o'r Cytundeb hwn, mae gwledydd sydd ag arfau niwclear yn ymrwymo i weithio o blaid diarfogi niwclear drwy negydu – dehonglwyd hynny ym 1996, gan y Llys Cyfiawnder Rhyngwladol, fel dyletswydd i sicrhau diarfogi niwclear, yn fuan. Mae unrhyw waith paratoi ar gyfer olynydd i Trident neu i hwyluso cynhyrchu arfau niwclear newydd o ganlyniad yn amlwg yn tramgwyddo ymrwymiadau'r DU o dan y CAY (cadarnhawyd yn 2000 yng Nghynhadledd Adolygu'r CAY).

http://www.nuclearpolicy.info

### heddweithredu:

Mae Gwersyll Heddwch Menywod Aldermaston (GHMA), gyda chefnogaeth grwpiau eraill, yn lansio addewid i 'Rwystro'r Adeiladwyr'. ac yn gofyn i bobl arwyddo ar gyfer gwarchae di-drais anferth ar Aldermaston ar y dydd Llun cyntaf wedi i'r gwaith gychwyn ar y safle. Mae angen pobl i gefnogi hefyd.

Gwersylloedd y dyfodol yn Aldermaston:

27ain-30ain o Awst: Gwersyll haf

Cysyllter â: info@thed10group.org.uk neu 07887 585721 http://www.reclaimthebases.org.uk

Gwersylloedd misol rheolaidd GHMA

6ed-9fed Awst - Cofio Hiroshima a Nagasaki Aldermaston Women's Peace Camp(aign) 57 Lyndhurst Road, Worthing, W Sussex BN11 07969 739 812 info@aldermaston.net http://www.aldermaston.net

*Peryglon y dyfroedd dwfn*

## Newidiadau i Lyn Trawsfynydd

Adeiladwyd yr Atomfa ar lannau Llyn Trawsfynydd yn y 1960au a defnyddiwyd dyfroedd y llyn i oeri'r adweithyddion. Llygrwyd y dur â radio-niwclidau a suddodd i mewn i'r gwaddod ar waelod y llyn, a'r tir o gwmpas.

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi penderfynu comisiynu astudiaeth i effaith posibl gostyngiad pellach yn lefel y dur yn Llyn Trawsfynydd. Mae'r astudiaeth yn cael ei gwneud gan 'Enviros Consulting Ltd.' ac mae'r astudiaeth yn gofyn cwestiynau 'beth os' wrth ystyried effeithiau gostwng lefel y dur, neu hyd yn oed sychu'r llyn yn llwyr. Mae'r defnyddiau sy'n cael eu hystyried ar gyfer y dyfodol yn cynnwys tir amaethyddol neu hyd yn oed adeiladu tai.

Mae adroddiad cyfrinachol a gynhyrchwyd ym 1988 gan y Bwrdd Cynhyrchu Trydan Canolog, "A Survey of the Distribution of Radioactivity in Llyn Trawsfynydd", yn rhybuddio am beryglon dadorchuddio'r gwaddod sydd o dan ddur a'u gollwng i'r awyr. Y rheswm pam mae hyn yn beryglus yw presenoldeb radio-nwclidau yn 300mm uchaf y gwaddod a hefyd y tebygrwydd y byddai'r rhain yn treiddio i lefelau is.

Mae Llyn Trawsfynydd yn berygl ymbelydrol, a dylid atal mynediad iddo i'r cyhoedd. Dylid ymdrin â'r llyn fel storfa gwastraff niwclear.

### heddweithredu

**Danfonwch eich sylwadau ar y cwestiynau 'beth os' hyn at:
Duncan Jackson, Rheolydd Grup Ymgynghori, Enviros Consulting, 61, The Shore, Leith, Caeredin EH6 6RA, Yr Alban; ebost: duncan.jackson@enviros.com ffôn: (0131) 555 9536 neu am fanylion pellach, cysyllter â Rod Stallard, gweler Cysylltiadau.**

# Dim llongau tanfor niwclear newydd

**Yn 2000 comisiynodd y Weinyddiaeth Amddiffyn Brifysgol Caerhirfryn i awgrymu dull derbyniol i'r cyhoedd o ddadgomisynu hen longau tanfor niwclear Prydain. Mae gan Brydain 27 o longau tanfor niwclear – cafodd 11 eu cymryd allan o wasanaeth a'u storio ar y dur, saith yn Rosyth yn yr Alban a phedair yn Devonport yn Lloegr. Archebwyd tair llong danfor niwclear newydd dosbarth 'Astute', sy'n cael eu hadeiladu yn Barrow, Lloegr.**

### Gwastraff

Gan fod y tanwydd wedi cael ei dynnu o'r hen longau tanfor, mae'r gwastraff niwclear sydd ar ôl wedi ei ddosbarthu fel 'gwastraff lefel-ganolog' a 'gwastraff lefel-isel'. Wedi'r astudiaeth ddechreuol gan Brifysgol Caerhirfryn, gwahoddodd y WA gontractwyr preifat i gynnig cynlluniau ar gyfer rheoli'r gwastaff ymbelydrol yma. Gwrthododd y broses ymgynghori yr holl gynigion hyn.

### Argymhellion

Mae gan adroddiad terfynol Prifysgol Caerhirfryn, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2004, 50 o argymhellion yn cynnwys:

* Ni ddylid adeiladu unrhyw longau tanfor niwclear newydd nes bod polisi dadgomisiynu llawn ar gael
* Dylid cludo deunydd ymbelydrol cyn lleied a phosib, a rhaid cyfiawnhau hynny wrth y cyhoedd
* Dylid defnyddio safloedd sydd eisoes wedi eu llygru ar gyfer dadgomisiynu a storio adweithyddion y llongau tanfor
* Dylai unrhyw gynigion i ymdrin â'r broblem fynd drwy'r drefniadaeth gynllunio sifil
* Dylai pob safle sy'n cael ei ystyried gael asesiad cymdeithasol ac amgylcheddol a dylid datgelu'r canlyniadau i'r cyhoedd
* Rhaid i gymunedau lleol gymryd rhan yn y trafodaethau ar y cynigion a rhaid sicrhau eu cytundeb.

Cymerodd CND Cymru ran yn yr ymgynghoriad ac ymddengys fod rhai o'n hawgrymiadau wedi cael eu cynnwys (er cael eu glastwreiddio braidd) yn yr argymhellion terfynol.

### Problem ddiderfyn

Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn anwybyddu:

* Y posibilrwydd cryf na chaiff unrhyw storfa wastraff niwclear ganolog ei hadeiladu ym Mhrydain oherwydd y gwrthwynebiad lleol a ddisgwylid.
* Y gallai unrhyw fath o safle niwclear presennol fynd yn storfa gwastraff ymbelydrol tymor-hir.

Dylai unrhyw safle lle caiff deunydd ymbelydrol ei storio fod â darpariaeth ar gyfer storio'n ddiogel am gyfnod maith (h.y. am byth) ac ar gyfer monitro ac ailbacio'r gwastraff.



Robert Van Nutt

### heddweithredu

Mae'r adroddiad ar yr ymgynghoriadau unigol ar gael ar www.isolus.org.uk neu gan Dr. Jane Hunt, Prifysgol Caerhirfryn (01524) 592 658 ebost: csec@lancaster.ac.uk

Sellafield

# 'Y deg ar hugain budr' mewn trafferth

**"Bydd gwneud bomiau yn ein dinistrio, Does dim ots p'run ai y byddwn yn eu defnyddio ai peidio, byddant yn ein dinistrio y naill ffordd neu'r llall."** ***Arundhati Roy***

Mae'n bosibl y bydd y Comisiwn Ewropeaidd yn mynd â'r Llywodraeth Brydeinig ger bron llys am fethu rhoi cyfrif llawn o'i ddeunydd niwclear. Mae'r pyllau storio B30 44-blwydd oed yng ngwaith ailbrosesu niwclear Sellafield yn Cumbria sy'n gollwng beunydd ('y deg ar hugain budr', chwedl gweithwyr Sellafield) yn cynnwys gwastraff niwclear o orsafoedd niwclear Trawsfynydd ac Wylfa, ymhlith eraill. Mae'r ddaear o gwmpas y pyllau wedi ei lygru'n wael hefyd.

### Anwybyddu rheolaethau

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd (CE) wedi dweud na all y sefyllfa yma barhau, lle mae cyflwr y cyfleuster mor eithriadol o ymbelydrol nes ei gwneud yn amhosibl ei arolygu o dan fesurau diogelwch Euratom. Mae'r broblem hon wedi bod yn hysbys ers amser maith, ac mae corff gwyliadwraeth y CE, Euratom wedi dweud fod y sefyllfa'n 'anfoddhaol', ond nid yw British Nuclear Fuels wedi gwneud dim i'w hunioni. Mae Comisiynydd Ewrop dros Ynni a Chludiant, Loyola de Palacio wedi galw ar y Llywodraeth Brydeinig i osod cynllun gweithredu ger bron erbyn Mehefin 1af i roi terfyn ar y sefyllfa. Os na wna hynny, gellid dwyn achos llys yn erbyn y Llywodraeth Brydeinig.

### Gwnewch chi fel y gwnaf innau

Mae'r CE yn pryderu y bydd yn anodd gwneud aelodau newydd yr UE yn atebol am gyflwr eu safleoedd niwclear hwythau os yw Prydain yn diystyru rheolaethau amgylchedd a iechyd. Mae'r pyllau storio yn gollwng y fath lefelau uchel o ymbelydredd fel na chaiff yr un gweithiwr weithio yn y cyffiniau am fwy nag awr y dydd.

### Busnes ffiaidd

Amcangyfrifir fod y pyllau storio'n dal 1.3 tunnell fetrig o blwtoniwm milwrol a sifil a rhwng 300 a 450 tunnell fetrig o fetel wraniwm. Dim ond kilogram neu ddau o blwtoniwm sydd ei angen i wneud bom niwclear a allai ddinistrio dinas gyfan. Mae gan Plwtoniwm 239 hanner bywyd o 24,400 o flynyddoedd ac os caiff ei lyncu gan anifeiliaid, bydd yn aros yn y gwaed, yr esgyrn, yr ysgyfaint a'r organau atgynhyrchu. Mae wraniwm yn wenwynig o safbwynt ymbelydrol a chemegol, yn berygl i iechyd fel metel trwm yn ogystal â radio-isotop.


# CAFWYD!

## arfau dinistr torfol*

**UDA: *10,640***

**Rwsia: *8,600***

**China: *400***

**Ffrainc: *350***

**Prydain: *200***

**Israel: *100 - 200***

**India: *30 - 35***

**Pakistan: *24 - 48***

**a dim ond arfau niwclear yw'r rheini*

## Beth am gael gwared ohonynt?

Ymunwch a'r Ymgyrch Ddiarfogi Niwclear

***Ydw, rwyf am ymuno a CND Cymru.***

enw:..............................

cyfeiriad:..............................

..............................côdpost:..............

teleffôn:.............. ebost ..............

Amgaeaf siec/AB am £ ☐ Yn daladawy i *CND Cymru*

☐ pâr cyflogedig:£16; ☐ oedolyn: £12

☐ cyflog isel/digyflog a phensiynwyr:£4; ☐ myfyrwyr a ieuenctid: £4;

Dychweler i:

Aelodaeth CND Cymru, 7, Brook Terrace, Mochdre, Drenewydd SY16 4JG

Gwefan: www.cndcymru.org Ffôn:(01550) 750 260


## Vanunu – ddim mor rhydd...hyd yn hyn

Cafodd Mordechai Vanunu, a herwgipiwyd ac a garcharwyd gan yr awdurdodau yn Israel am ddatgelu'r gwir am raglen arfau niwclear gyfrinachol Israel, ei ryddhau o'r carchar ar yr 21ain o Ebrill. Fodd bynnag, mae'n dal i fod yn gaeth i nifer o amodau, ac ni chaiff adael Israel.

Mae esgob Anglicanaidd wedi rhoi 'lloches' i Vanunu yn Eglwys Gadeiriol St. George, Jerwsalem ac mae wedi annog Tony Blair i bwyso ar lywodraeth Ariel Sharon i adael i'r cyn-dechnegydd i adael y wlad.

Ar Fai'r 9fed, sgrifennodd Mordechai:

*"Annwyl gyfeillion, dyma fy ebost cyntaf i'm holl gyfeillion, fy nghefnogwyr, ym mhedwar ban y byd. Hoffwn ddiolch i chi i gyd am eich cefnogaeth a'r ymgyrchu a fu i'm rhyddhau. Diolch yn fawr iawn am gydgerdded gyda mi ar hyd yr holl flynyddoedd hyn. Roedd yn wych ac yn rhyfeddol cael cwrdd â rhai ohonoch yma, ar y diwrnod y cefais fy rhyddhau. Yn awr, mae'n ddechreuad newydd, a gobeithio, cyn hir, y caf gwrdd â phob un ohonoch. Diolch am eich holl weddïau.*

*Dwi'n aros yn St. Georges Cathedral Close, ac rwy'n ddiolchgar am gael aros yma. Croeso i chi ddanfon negeseuon ataf, fy ebost yw vanunumvjc@hotmail.com*

*Dros Fyd yn Rhydd o Arfau Niwclear*

*Vanunu - MVJC*

heddweithredu:

Er bod Mordechai Vanunu wedi cwblhau ei ddedfryd faith yn y carchar, ac er nad oes dim cyhuddiadau pellach yn ei erbyn, mae'n dal i gael ei gosbi. Mae'n hanfodol, felly, na chaniateir i'r cyfyngiadau presennol galedu, gan greu math arall o garchariad maith.

* Sgrifennwch at Vanunu yn St. George's Cathedral, PO Box 19018, 20 Nablus Road, Jerusalem, Israel, neu danfonwch e-bost ato yn y naill neu'r llall o'r cyfeiriadau hyn: edlosces@netvision.net.il neu vanunumvjc@hotmail.com (Mae'n eiddgar iawn i gynnal ei ohebiaeth eang, yn enwedig pan fo'r fath gyfyngiadau ar ei symudiadau.)

Am fwy o wybodaeth ynglwn â Vanunu cysyllter â: Campaign to Free Vanunu and for a Nuclear Free Middle East, 185, New Kent Road, Llundain SE1 4AG (020)7378 9324 ebost: campaign@vanunu.freeserve.co.uk

# Grwp Arolwg Barnwrol 7 y Dreth Heddwch

**A ydym yn dal yn ddieuog os nad awn i ryfel ein hunain ond os talwn i eraill fynd yn ein lle?**

Mae 7-10% o'n trethi yn cael eu gwario ar gostau milwrol. Mae £31 biliwn y flwyddyn yn mynd ar wariant milwrol, mwy nag wyth gwaith gymaint ag ar ddatblygiad rhyngwladol. Mewn oes o dechnoleg filwrol soffistigedig, mae gorfodaeth ariannol ar bobl i gefnogi ryfel wedi cymryd lle gorfodaeth filwrol ar bobl i ryfela. Mae'r hawl i wrthwynebu'n gydwybodol wedi cael ei chydnabod ym Mhrydain er 1916 ond does dim darpariaeth ar hyn o bryd i alluogi gwrthwynebwyr cydwybodol i ddargyfeirio rhan filwrol eu trethi i ddiben heddychlon. Grwp o saith o ddinasyddion sy'n talu trethu yw 7 y Dreth Heddwch sy'n gwrthwynebu'r orfodaeth i gyfrannu arian treth unigol at wariant milwrol, Maent yn galw am gael yr hawl i ddargyfeirio cyfran filwrol eu trethu at weithredoedd heddychlon, anfilitaraidd, ac yn dwyn achos llys i geisio sicrhau arolwg barnwrol o gyfraith trethi Prydain er mwyn gwneud darpariaeth amgen ar gyfer gwrthwynebwyr cydwybodol.

### Hanes gwrthod talu'r dreth ryfel

Mae 7 y Dreth heddwch yn dilyn esiampl llawer o rai eraill, fel yr awdur Americanaidd Henry David Thoreau a garcharwyd am wrthod talu treth ar gyfer Rhyfel Mecsico, a'r gantores Joan Baez, a nifer o rai eraill, a wrthododd gyfrannu at Ryfel Fietnam. Yma yng Nghymru, rydym yn dathlu canmlwyddiant geni'r bardd Waldo Williams eleni. Hanner canrif yn ôl, safodd Waldo yn erbyn gorfodaeth filwrol ac yn erbyn rhyfel Corea. Fe'i cythruddwyd gan y ffordd yr oedd yr Unol Daleithiau wedi ystrywio esgusodion dichellgar er mwyn cyfiawnhau mynd i ryfel (felly does dim byd newydd dan yr haul!). Gwrthododd Waldo dalu'i dreth incwm oddi ar 1951 ymlaen ac fe'i carcharwyd o'r herwydd ym 1960 ac eto ym 1961.Ymunodd Waldo â'r Crynwyr ym 1953, ac mae'r Crynwyr wedi arwain y ffordd o ran gwrthod talu treth ryfel yn y DU. Mae nifer o bobl, yn Grynwyr ac eraill, wedi cael eu herlyn yn y llysoedd oherwydd eu safiad. Dirwywyd rhai a chymerwyd eu heiddo, a charcharwyd ambell un. Mae taer angen newid y ddeddf drethi i adfer hawl ddynol gwrthwynebwyr cydwybodol i ryddid cydwybod.

### Yr Achos Cyfreithiol

Cafodd yr hawl i wrthwynebu gorfodaeth filwrol ei chydnabod yn y rhan fwyaf o wledydd democrataidd, yn cynnwys y DU yn Neddf Gwasanaeth Milwrol 1916. Mae'r hawl i atal trethi at ddibenion milwrol yn estyniad rhesymegol o'r hawl i wrthod cymryd rhan uniongyrchol mewn gweithgareddau milwrol. Mae Erthygl 9 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (*ECHR*), yn cydnabod rhyddid meddwl, crefydd a chydwybod. Mae'r ECHR yn rhan o gyfraith Prydain o dan amodau Deddf Hawliau Dynol 1998, a ddaeth i rym ym mis Hydref 2000, Ers y dyddiad hwnnw, mae wedi bod yn anghyfreithlon i awdurdod cyhoeddus ymddwyn mewn modd sy'n anghydnaws â'r ECHR. Mae gorfodi i wrthwynebwyr cydwybodol gyfrannu at wariant milwrol yn ymyraeth anghymesur â'r hawliau dynol sylfaenol hyn ac mae felly'n anghyfreithlon.

### Beth fyddai'n newid pe byddent yn ennill yr achos?

Pe baent yn ennill, fyddai'r gyfraith ddim yn newid ar unwaith, ond byddai ddyletswydd ar y Llywodraeth Brydeinig i ystyried yr anghysondeb hwn rhwng cyfraith dreth y DU a'r gyfraith hawliau dynol. Hyderwn mai canlyniad adolygiad o'r fath fyddai caniatáu'r hawl i wrthwynebwyr cydwybodol ddargyfeirio cyfran filwrol eu trethi at bwrpas heddychlon. Cynrychiolydd cyfreithiol Saith y Dreth Heddwch yw Phil Shiner o Public Interest Lawyers. Amcangyfrifir y gall gymryd hyd at 12 mis i'r achos fynd trwy'r llysoedd a gallai olygu costau o gymaint â £50,000. Mae'r saith gwrthwynebydd treth ryfel yn bersonol gyfrifol am y costau hyn.

## Saith y Dreth Heddwch



**Dr Brenda Broughton –** *athrawes wedi ymddeol* "Heddychwraig ydw i. 'Tydw i ddim wedi bod o'r cychwyn, ond wrth ddysgu mwy am y byd, mae rhywun yn sylweddoli mai dyma ydy'r ffordd ymlaen, mae'n rhaid inni ddysgu cyd-dynnu â phobl eraill. Mae'n rhaid inni ddysgu nad gorchest arwrol ydy rhyfel, ond gwarth ac arwydd o wendid a methiant."

**Roy Prockter –** *cyfrifydd siartredig* Rwy'r credu'n gryf, fel dyn yn fy oed a'm hamser, fod pob rhyfel, a phob paratoad at ryfel yn anghyfiawn, ac yn erbyn ysbryd Duw, fel y profwyd gan lawer o bobl o lawer ffydd a diwylliant, ond yn fwyaf perthnasol, fel y profais innau'n bersonol. Ni allaf bellach dalu trethi er mwyn i eraill ladd, neu baratoi i ladd, yn fy enw i."

**Dr Birgit Völlm – seiciatrydd a darlithydd prifysgol** "Meddyg ydw i ac fe ddewisais yr yrfa hon er mwyn helpu pobl a lleddfu dioddefaint. Nid yw cyfrannu tuag at ryfel, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, trwy roi arian ar ei gyfer, yn gyson â 'm hegwyddorion proffesiynol fel meddyg."

**Robin Brookes – gwneuthurwr teganau traddodiadol** "Mae angen rhaglen o ddatrys gwrthdaro mewn modd di-drais ar fyrder. Pe bai cyfran fechan o'r arian sy'n cael eu wario ar baratoi at ryfel yn cael ei wario ar hyn, byddem yn bell ar y ffordd at ddileu rhyfel am byth."

**Siân Cwper – Bwdhydd** "Pwrpas fy nghrefydd Fwdhaidd ydy gwneud lles i bob bod byw. Mae lladd a chlwyfo pobl yn hollol groes i hynny, ac nid wyf am dalu amdano. Dw i eisiau i 'nhrethi fynd at rywbeth buddiol."

**Simon Heywood – darlithydd prifysgol** "Os ceisia unrhyw lywodraeth y DU wario ceiniog o 'nhreth i ar danseilio'r gyfraith ryngwladol, yna fel dinesydd y byd, mae gen i hawl gyfreithiol i wahardd defnyddio fy arian fel hyn. Ac os ceisia unrhyw lywodraeth y DU wario ceiniog o 'nhreth i ar ddinistrio bywydau diniwed yna, fel bod dynol, mae'n ddyletswydd moesol arnaf i wrthod."

**Joe Jenkins - awdur/gwneuthurwr ffilmiau** "Fel y gwyr y Llywodraeth yma'n iawn, hyd yn oed lle mae'r cyhoedd yn cydsynio'n gyffredinol i'r broses drethu, mae'n gydsyniad amodol, bregus, y mae'n rhaid ei fethrin a'i ddiogelu drwy gysylltiadau cyhoeddus cadarnhaol. Heddiw, mae'r fath anfodlonrwydd a digofaint yn bod ymhlith trethdalwyr fod Llywodraeth Brydeinig wedi ymrwymo ein lluoedd arfog i ryfel cyfeiliornus, camreolus ac anghyfreithlon. Ymddengys yn bosib hefyd fod cydymdeimlad cynyddol yn bodoli tuag at rai sy'n gwrthwynebu'r dreth ryfel."

heddweithredu

**Mae angen eich cymorth ar 7 y Dreth Heddwch i godi arian ar gyfer yr achos arloesol yma!** Danfonwch sieciau'n daladwy i '7 y Dreth Heddwch' at: Treasurer, Peace Tax 7, Woodlands,Ledge Hill, Market Lavington,Wiltshire SN10 4NW.
info@peacetaxseven.co.uk www.peacetaxseven.co.uk

# Dyddiadau dyddiadur

**Awst 6ed – 9fed Gwersyll Heddwch Menywod Aldermaston, Berkshire, Lloegr.** Cofio Hiroshima a Nagasaki Cysyllter â: AWPC, 157, Lyndhurst Road, Worthing, W. Sussex BN11 info@aldermston.net http://www.aldermaston.net

**Awst 6ed – 9fed Gwersyll 'RAF' USAF Lakenheath** Suffolk, Lloegr. Gwersyll Heddwch i goffáu y bomio niwclear ar Hiroshima a Nagasaki. Cysyllter â: Lakenheath Action Group http://www.motherearth.org/lakenheathaction/ebost: thepeaceforce@theatreofwar.org (0116) 270 6436

**Awst 7fed 7.30pm Caerdydd** Parc y Rhath, hwylio cychod papur, darlleniadau a chanu. Cysyllter â: Ray Davies (02920) 889 514

**8fed Awst 12 pm ymlaen Llanrhaeadr ym Mochnant** (Tan-y-bryn, Waterfall Road) Picnic Heddwch i goffáu Hiroshima yn y 'Wildlife Garden' sy'n cynnwys Llwyn Onn Coffa Hilda Murrell. Stondinau dod a gwerthu a cherddoriaeth fyw. Dewch â bwyd. Cysyllter â: Borders Peace & Justice Network, 4,Old School Cottages, St.Martins, SY11 3AS Ffôn: Marnie (0845) 458 2981 neu Diane (01691) 777 672 gerry_doe@hotmail.com

**Awst 23ain Faslane Gwarchae Mawr 2004.** CND Yr Alban: (0845) 458 8361. http://www.banthebomb.org/

**Awst 27ain – 30ain Aldermaston,** Berkshire, Lloegr. Gwersyll Haf 'Reclaim the Bases'. Cysyllter â: info@eded10group.org.uk ffôn: 07887 585 721 http://www.reclaimthebases.org.uk

**Awst 28 - Caerdydd** ar risiau'r Amgueddfa Cenedlaethol 12-1pm Gwylnos Menywod mewn Du Cysyllter â Fernfire@aol.com

**Medi 5ed – 12fed Llundain** 'Core Skills for Human Rights Field Work'. Cwrs preswyl wythnos o hyd. Cysyllter â: Mareike Junge. PeaceworkersUK 18, Victoria Park Square Llundain E2 9PB T: +44-(0)20-8981 7084 ebost: training@peaceworkers.org.uk gwefan: www.peaceworkers.org.uk

**Medi 11ed – 12ed Llundain** Cynhadledd Flynyddol CND Prydeinig, The Queen's Walk, SE1. www.cnduk.org 020 7700 2393.

**Medi 12fed Pobman** Sul Cyfiawnder Hiliol: "Un Hil, yr Hil Ddynol". Pecynnau rhad ac am ddim, taflenni gweddi, posteri gan Catholic Association for Racial Justice, 9 Henry Road, Manor House, Llundain, N4 2LH (020) 8802 8080 ebost: info@carj.co.uk

**Medi 18fed – 21ain Gwersyll Diarfogi Coulport, Yr Alban** yn gyfleus ar gyfer Faslane hefyd. http://www.tridentploughshares.org/coulport/index.php

**Medi 18fed Cyngor CND Cymru** croeso i bob aelod a chynrychiolydd sydd wedi talu tanysgrifiad. Dewch i chwarae rhan! Cysyllter ag Ysgrifennydd Cenedlaethol CND Cymru am wybodaeth bellach (gweler Cysylltiadau)

**Medi 25ain i Hydref 2il Cyffredinol** Wythnos Cadwch y Gofod ar gyfer Heddwch http://cndyorks.gn.apc.org/ neu cysyllter â nhw: Yorkshire CND, 22 Edmund Street, Bradford, West Yorkshire, BD5 0BH (01274) 730 795 ebost: **info@yorkshirecnd.org.uk**

**Hydref** – 'Rhyng-gipwyr taflegrau' daear America i fod i gael eu lleoli yn Alaska a California, gyda mwy i ddilyn y flwyddyn nesaf.

**Hydref 3ydd – 4ydd Lakenheath, Suffolk, Lloegr** Penwythnos Blynyddol Grup Gweithredu Lakenheath http://www.motherearth.org/lakenheathaction/ Cysyllter â: (0116) 270 6436 thepeaceforce@theatreofwar.org

## Ysgrifennydd Aelodaeth Newydd CND Cymru

Yng Nghyfarfod Cyffredinol 2004 CND Cymru yn Rhaeadr, y swyddogion a etholwyd oedd: Cadeirydd: Jill Evans ASE, Is-Gadeiryddion: Olwen Davies, Ray Davies, David Bradley a Rod Stallard. Diolchwyd o galon i'r Ysgrifennydd Aelodaeth, Brian Jones, sy'n rhoi'r gorau iddi wedi 10 mlynedd yn y swydd. Rhoddwyd croeso cynnes i'r Ysgrifennydd Aelodaeth newydd, Monica Bradley o'r Drenewydd, sydd eisoes yn adnabyddus yn y mudiad heddwch am ei hymgyrchu egnïol yn y Canolbarth. Mae Monica hefyd yn gynrychiolydd CND Cymru ar Gyngor CND Prydeinig, ynghyd â John Cox a David Bradley.

Diolchwyd i'r Ysgrifennydd Cenedlaethol, y Trysorydd a'r Swyddog Masnachu am eu gwaith caled cyson a'u hymrwymiad yn ystod y flwyddyn.
Clywodd y Cyfarfod Cyffredinol adroddiadau ar gyllid, aelodaeth a masnacha ac arolwg cyffredinol ar flwyddyn ymgyrchu CND Cymru.
Dywedodd Jill Stallard, yr Ysgrifennydd Cenedlaethol "Diolch i bawb sy'n parhau i ddod i gyfarfodydd. Dylem ymfalchïo yn y gwaith pwysig a wneir gennym."
Mae copïau o Adroddiadau Blynyddol ar gael i aelodau CND Cymru. Croeso i bawb sy'n cynnig ymuno yn y gwaith. Cysylltwch â Jill Stallard (gweler y dudalen cysylltiadau).

## cysylltiadau cnd cymru

**cadeirydd:**
Jill Evans MEP
(01824)709 700
jievans@europarl.eu.int

**is-gaderyddion**
Rod Stallard
(01550) 750 260

David Bradley(gogledd cym
(01824)709 700

Olwen Davies (y canolbarth)
(01970) 611 994

Ray Davies (de cymru)
(029 20) 889 514

**aelodaeth &aelodau cysylltiol:**
Monica Bradley
7, Brook Terrace, Mochdre, Drenewydd SY16 4JG
(01686) 626 350 monicabradley@freeuk.com

**masnachu**
Jan Jones
(01792)830 330

**trysorydd**
Jean Bryant,
16,Clôs
Ty'n y Cymer,
Porth,Y Rhondda CF39 9DE

**golygydd heddwch ac ysgrifenydd cyffredinol:**
Jill Stallard, Nantgaredig,
Cynghordy, Llanymddyfri
SA20 0LR (01550) 750 260
jill@cndcymru.org

**Mwy o wybodaeth, syniadau neu gymorth i'w gynnig? Cysylltwch â'ch is-gadeirydd CND Cymru agosaf da chi, neu'r ysgrifennydd cyffredinol.**